PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Adroddiad ar y 5ed gyfres o Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd, 2021

Karen McFarlane | Medi 2021

Mewn partneriaeth â END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Diolchiadau

Carem ddiolch i aelodau grŵp llywio'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant (ECPM) am eu cydweithrediad.

Hoffai Plant yng Nghymru ddiolch hefyd i'r holl ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc a fu'n rhan o'r arolwg. Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich ymatebion yn fawr.

Os ydych chi'n ymarferydd neu'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru, ac fe hoffech chi fod yn rhan o'r arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd nesaf, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk a byddwn ni'n rhoi gwybod i chi pan fydd yr arolwg yn fyw. Bydd yr arolwg yn dal i gael ei gwblhau'n ddienw.

Ariannir yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Barn yr awdur a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn yr ariannwr.

Barn ymatebwyr i'r cwestiynau yn yr arolwg a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn Plant yng Nghymru.

Gwybodaeth am Plant yng Nghymru

Ni yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Rydyn ni'n cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a sefydliadau yng Nghymru i sicrhau bod hawliau plant yn cael y lle blaenaf mewn polisi ac wrth wneud penderfyniadau.

Mae ein haelodau yn cynnwys unigolion a sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ar nifer o wahanol brosiectau. Ein nod yw hybu buddiannau'r grwpiau hyn, gwella gwasanaethau yng Nghymru, a sicrhau bod plant ar frig yr agenda wleidyddol yng Nghymru.

I ddysgu mwy am ein gwaith neu i ddod yn aelod o Plant yng Nghymru, cysylltwch â membership@childreninwales.org.uk

Gwybodaeth am Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant (ECPN) Cymru yn glymblaid o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant yng Nghymru, ac yn cael ei gydlynu a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru.

Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws y sectorau gwirfoddol a statudol, ac mae gan y rhwydwaith ehangach dros 1000 o aelodau cefnogi o groestoriad eang o asiantaethau.

Os hoffech chi ymuno â'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant ehangach, cysylltwch â Karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk

Hawliau Plant a Thlodi

Mae tlodi'n groes i nifer o Erthyglau a geir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae'n amddifadu plant o'r canlynol:

- Eu hawliau i gael safon byw sy'n ddigonol (Erthygl 27)
- Eu hawliau i'r iechyd gorau posibl a bwyd maethlon (Erthygl 24)
- Eu hawliau i gael cyfleoedd chwarae a hamdden (Erthygl 31)
- Eu hawliau i elwa o nawdd cymdeithasol (Erthygl 26)
- Eu hawliau i ddatblygu hyd eithaf eu potensial (Erthygl 6)

Tabl o'r cynnwys

Cyflwyniad 5

Cefndir yr arolwg 6

Canfyddiadau'r arolwg Ymarferwyr a Gweithwyr Proffesiynol 7 - 36

Am yr arolwg 7

Pwy ymatebodd 8

Canfyddiadau 9

Materion tlodi trosfwaol: cymharu 3 blynedd 10

Materion tlodi trosfwaol 2021 12

Iechyd meddyliol ac emosiynol 16

Effaith COVID ar dlodi 18

Codi lefel Credyd Cynhwysol dros dro 21

Prydau ysgol am ddim 23

Banciau bwyd 25

Cynhwysiad digidol 27

Addysg 31

Blynyddoedd cynnar: Crynodeb sector-benodol o'r ymatebion 34

Taclo tlodi a'i effaith – Barn ymatebwyr 35

Canfyddiadau'r arolwg Plant a Phobl Ifanc 37-54

Am yr arolwg 37

Pwy ymatebodd 38

Canfyddiadau 39

Tlodi ac arian 40

Tlodi a'r ysgol 41

Tlodi a'r cartref 43

Tlodi yn y gymuned 45

COVID a thlodi 47

Meddyliau terfynol gan blant a phobl ifanc 49

Enghreifftiau o arfer cadarnhaol 51

Taswn i'n Brif Weinidog... 52

Cyflwyniad

Mae tlodi ac effeithiau tlodi yn amlwg yn effeithio ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae plant yn llwglyd, mae teuluoedd mewn dyled, ac i lawer mae'r cylch yn parhau o un genhedlaeth i'r nesaf. Roedd ein 5ed arolwg Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd yn ceisio deall mwy am y materion mae teuluoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd, effaith hynny, a hefyd, yn bwysig, clywed barn plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae canfyddiadau ein harolygon yn rhoi gwell dealltwriaeth o brofiad plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, y materion maen nhw'n eu hwynebu'n ddyddiol, ac effaith hynny ar wahanol agweddau ar eu bywydau.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth o faterion cysylltiedig â thlodi dros gyfnod o 3 blynedd, ac er bod rhai materion wedi newid i ryw raddau dros amser, yn gyffredinol, mae pethau wedi parhau'r un fath. Yn wir, mewn nifer o ardaloedd, ac i lawer o blant, mae'n drist bod y sefyllfa wedi gwaethygu.

Mae canfyddiadau arolygon yr ymarferwyr a'r plant a'r bobl ifanc yn ddigysur ac yn annerbyniol. Heb weithredu ar frys i roi sylw i bolisïau, dealltwriaeth ac agweddau a'u newid, bydd cylch ac effaith niweidiol tlodi yn parhau ar gyfer ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd.

Cefndir yr arolwg

Yn 2014, cyhoeddodd Plant yng Nghymru Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru: Ciplun o'r prif faterion a godwyd gan deuluoedd. Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi prosiect ymchwil a gynhaliwyd gydag Aelodau'r Cynulliad (Aelodau'r Senedd bellach), Aelodau Cymru o Senedd y Deyrnas Unedig a swyddfeydd Cyngor ar Bopeth. Nod y prosiect oedd canfod y materion mwyaf cyffredin cysylltiedig â thlodi oedd yn effeithio ar aelwydydd â phlant. Yn dilyn ymlaen o'r adroddiad hwn, mae Plant yng Nghymru wedi cynnal arolwg blynyddol i ganfod beth sydd wedi newid, os o gwbl, a pha faterion cysylltiedig â thlodi sy'n effeithio ar deuluoedd yn fwyaf cyffredin. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant am eu mewnbwn a'u cyfraniad wrth ddylunio'r arolwg a'r cwestiynau.

Yn 2016/17, roedden ni'n awyddus i glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc. Roedden ni eisiau gwybod eu barn ar dlodi; deall sut roedd yn effeithio arnyn nhw a pha feysydd roedden nhw'n gweld eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi. Ers hynny, rydyn ni wedi cynnal 2 arolwg ar yr un pryd, 1 ar gyfer ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, a'r llall ar gyfer plant a phobl ifanc. Er na all cwestiynau'r arolygon gyfateb i'w gilydd, mae mwyafrif y materion a'r themâu dan sylw yr un fath ar draws y ddau arolwg.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n ceisio cadw rhai cwestiynau craidd, fel bod modd cymharu'n uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae rhai cwestiynau ac opsiynau amlddewis wedi gorfod newid i adlewyrchu neu gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, materion sy'n dod i'r amlwg neu bryderon a godwyd mewn arolygon blaenorol.

Roedd yr ymatebion a gafwyd o arolygon eleni yn fanwl ac yn darparu llawer o wybodaeth werthfawr. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ganfyddiadau'r ddau arolwg ar wahân, yn hytrach nag fel cyfanwaith.

Ym mis Mawrth 2020, canfu Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig eu bod yng ngafael pandemig y Coronafeirws, ac fel y gwledydd eraill, wynebodd gyfyngiadau estynedig a chyfnodau clo. O ganlyniad, wrth gael hyd i'w ffordd trwy'r amgylchiadau hyn, nid oedd Plant yng Nghymru mewn sefyllfa i gynnal arolwg blynyddol yr ymarferwyr nac arolwg blynyddol y plant a'r bobl ifanc.

Fel mesur interim, canolbwyntiwyd ar sefyllfa uniongyrchol y Coronafeirws er mwyn canfod sut roedd y pandemig yn effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd. Rhwng 13 Gorffennaf a 10 Awst 2020, cynhaliwyd arolwg byr ar-lein gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn unig. O reidrwydd, roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar y materion uniongyrchol roedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn eu hwynebu yn y cyfnod yma, a'r rhai oedd yn dod i'r amlwg. Y 3 maes ffocws oedd:

- Ansicrwydd bwyd
- Cynhwysiad digidol
- Incwm a chyflogaeth

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r arolwg byr hwn COVID-19 a'r effaith ar deuluoedd incwm isel a difreintiedig yn hydref 2020.

Er nad oes modd cymharu canfyddiadau arolwg COVID-19 yn uniongyrchol â hwn nac â'n harolygon blaenorol, maent yn darparu ciplun o'r sefyllfa yn ystod ton gyntaf y pandemig, ac effaith hynny ar blant, pobl ifanc a theuluoedd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn golygu bod modd cymharu rhywfaint â chanfyddiadau arolwg 2021.

Mae'n werth nodi bod hwn, ein harolwg yn 2021, wedi digwydd yng nghyd-destun pandemig byd-eang, a bod hynny'n anochel wedi effeithio ar fywydau pawb yng Nghymru, ond yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi neu ar y ffin â hynny. Gallai'r amgylchiadau eithriadol hyn olygu bod mwy o duedd yn rhai neu'r cyfan o'r atebion a roddwyd gan ymatebwyr, ond roedd cyfradd tlodi plant yng Nghymru yn uchel cyn y pandemig, gyda 31% o blant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi cymharol. Er bod COVID wedi peri i dlodi waethygu'n ddifrifol, ni ellir ei weld fel esgus nac achos ynddo'i hun am y sefyllfa gyfredol o ran tlodi.

Canfyddiadau'r Arolwg Ymarferwyr a Gweithwyr Proffesiynol

Am yr arolwg

Roedd yr arolwg yn ceisio mewnwelediad i brofiad ac arsylwadau'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol). Roedd ar gael i'w gwblhau ar-lein, ac fe'i dosbarthwyd yn eang trwy Gymru, trwy aelodau Plant yng NGhymru, rhwydweithiau a bwletinau, a thrwy rwydweithiau ein cydweithwyr allanol. Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o 5 wythnos o 26 Ebrill tan 30 Mai 2021, ac fe'i cwblhawyd yn ddienw gan yr ymatebwyr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried cwestiynau cysylltiedig â thlodi yn y meysydd canlynol

- Materion tlodi trosfwaol
- Effaith Covid ar dlodi
- Credyd Cynhwysol
- Prydau ysgol am ddim
- Banciau bwyd
- Cynhwysiad digidol
- Addysg

O'r cwestiynau cysylltiedig â thlodi yn yr arolwg, roedd 57% yn rhai amlddewis a 43% yn gofyn am sylwadau penagored. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i'r ymatebwyr rannu eu meddyliau a'u syniadau am atebion, ataliaeth neu fesurau lliniaru ar gyfer effaith tlodi ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Pwy ymatebodd

Ymatebodd ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o 21 o ardaloedd Awdurdod Lleol ledled Cymru. Y siroedd hynny lle cafwyd y nifer uchaf o ymatebion oedd Powys, Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd.

Daeth cyfanswm o 116 o ymatebion i law, a phlant, pobl ifanc a/neu deuluoedd oedd cylch gorchwyl yr holl ymatebwyr. O'r ymatebwyr, **roedd 80% yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, sy'n cynrychioli o leiaf 33,000 o deuluoedd bob blwyddyn**. Roedd yr 20% arall yn gweithio'n anuniongyrchol gyda phlant a theuluoedd mewn meysydd fel datblygu polisi, rolau rheoli ac academia.

Roedd yr ymatebwyr yn gweithio yn y meysydd canlynol:

- 34% mewn addysg
- 29% yn y trydydd sector
- 25% mewn awdurdodau lleol
- 12% mewn meysydd eraill (gan gynnwys gwasanaethau cynghori, iechyd, academia)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi gyda pha ystod oed maen nhw'n gweithio'n bennaf, neu beth yw ystod oed eu cylch gorchwyl.

Nid atebodd pob ymatebydd bob un o'r cwestiynau. Fodd bynnag, roedd cyfradd cwblhau'r arolwg yn uchel, ac ar gyfartaledd, atebodd 96% o'r ymatebwyr bob un o'r cwestiynau amlddewis, ac atebodd 94% un neu fwy o'r cwestiynau penagored.



Canfyddiadau

Cyflwyniad

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau cyffredinol yr arolwg yn llwm. Mae profiadau ac arsylwadau ymarferwyr a phobl proffesiynol sy'n gweithio gyda mwy na 33,000 o deuluoedd yn dangos bod y sefyllfa o ran tlodi yn dirywio i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Nododd ymarferwyr fod teuluoedd yn cael trafferth ymdopi ac yn wynebu heriau ariannol yn feunyddiol. At ei gilydd, roedden nhw'n gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd oedd ar lai o incwm, mewn dyled ac yn defnyddio banciau bwyd. Profodd llawer o ymatebwyr blant yn dod i leoliadau ac ysgolion yn llwglyd, ac mewn rhai amgylchiadau, yn cymryd bwyd a'i guddio, er mwyn ei roi i'w teuluoedd. Nid yw'n syndod, felly, bod yr ymatebwyr ar hyd yr arolwg yn cyfeirio'n barhaus at lefelau dyled, newyn a lefelau cynyddol o bryder, straen a iechyd meddyliol ac emosiynol gwael y teuluoedd, y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae canfyddiadau'r arolwg Plant a Phobl Ifanc hefyd yn adlewyrchu rhai'r arolwg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, gyda phwyslais arbennig ar ddyled, iechyd emosiynol a bwlio cysylltiedig â thlodi.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried materion cysylltiedig â thlodi yn y meysydd canlynol:

- Materion tlodi trosfwaol
- Effaith COVID ar dlodi
- Credyd Cynhwysol
- Prydau ysgol am ddim
- Banciau bwyd
- Cynhwysiad digidol
- Addysg

Wrth ddadansoddi, nid oedd gwahaniaethau daearyddol arwyddocaol yn y materion a ddewiswyd na'r sylwadau a wnaed, na chwaith wahaniaethau rhwng y rhai oedd yn gweithio ar draws gwahanol grwpiau oedran.

Mae'r adrannau sy'n dilyn yn dangos canfyddiadau'r arolwg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn cynnwys cymhariaeth 3 blynedd o'r materion trosfwaol a nodwyd gan yr ymatebwyr.

Materion tlodi trosfwaol: cymharu 3 blynedd

Cyflwyniad

Mae'r arolwg tlodi Plant a Theuluoedd Blynyddol yn awr yn ei 5ed flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cwestiynau o reidrwydd wedi newid i adlewyrchu materion cysylltiedig â thlodi sy'n dod i'r amlwg a'u heffaith. Fodd bynnag, mae cwestiynau craidd yn cael eu cynnwys yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, gan ddarparu trosolwg cymaradwy o'r sefyllfa o ran tlodi yng Nghymru, yn ôl profiad ac arsylwi ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol.



Dyma'r cwestiynau hynny:

- Ydy'r sefyllfa wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- Yn eich profiad chi, beth yw'r 5 mater amlycaf sy'n gysylltiedig â thlodi?

Fel mae'r siart uchod yn dangos, o flwyddyn i flwyddyn, mae ymatebwyr yn adrodd bod y sefyllfa o ran tlodi yn gwaethygu o hyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ystyried effaith COVID, efallai bod y canfyddiad hwn i'w ddisgwyl yn 2021, ond hyd yn oed cyn y pandemig, soniodd yr ymatebwyr am sefyllfa oedd yn gwaethygu.

Archwiliwyd effaith COVID Ar deuluoedd yn ystod arolwg eleni (2021) a cheir manylion y canfyddiadau hynny yn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn.

Yn achos yr 2il gwestiwn, cyflwynwyd ystod o 16 mater cysylltiedig â thlodi i'r ymatebwyr. Trwy eu profiad a'u harsylwadau, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r 5 o'r 16 mater oedd yn peri'r pryder mwyaf, a rhoi'r 5 yma oedd ar y brig yn nhrefn pwysigrwydd. Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r 12 mater oedd yn weddill. Mae'r rhestr o faterion wedi parhau yr un fath yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ac eithrio urddas mislif. Ychwanegwyd hwn yn fater newydd cysylltiedig â thlodi ar gyfer arolwg 2021, gan estyn nifer y materion i 17. O ganlyniad, nid oes data cymaradwy ar gyfer urddas mislif.



Dengys y siart uchod pa rai o'r 16 mater (17 yn 2021) oedd yn cael safle ymhlith y 5 uchaf, a chanran yr ymatebwyr oedd yn dewis pob mater dros gyfnod o 3 blynedd.

Mae nodi'r 5 mater sydd ar y brig yn helpu i ddarparu dull mwy cadarn o fesur a chymharu profiadau ac arsylwadau ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r canfyddiadau'n dangos, at ei gilydd, bod y prif faterion mae teuluoedd yn eu profi wedi aros yr un fath, sef dyled, materion cysylltiedig ag incwm ac ansicrwydd bwyd.

Mae **effaith newidiadau i fudd-dal** mewn safle uchel ar draws y 3 blynedd sy'n cael eu cymharu, ond roedd yn arbennig o drafferthus yn 2018. Esboniad tebygol ar hyn fyddai'r newidiadau mawr a gyflwynwyd i'r system fudd-daliadau bryd hynny. Yn 2014, dechreuwyd cyflwyno Credyd Cynhwysol (CC) yng Nghymru fesul cam. Roedd CC yn disodli 6 chredyd treth a budd-dal prawf modd oedd eisoes yn bodoli, a rhwng Ebrill 2017 a Rhagfyr 2018, estynnwyd y trosglwyddo hwn i greu gwasanaeth llawn i'r holl hawlwyr, ac roedd hynny'n cynnwys teuluoedd â phlant ledled Cymru.

Yn 2018, yn ystod cyfnod yr Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd Blynyddol, roedd llawer o deuluoedd a'r ymarferwyr sy'n eu cefnogi yn mynd trwy'r pontio hwn. Ar y pryd, ac fel yr amlygwyd yng nghanfyddiadau ein harolwg ar gyfer 2018, nododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach) nifer o broblemau gyda Chredyd Cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys amserau aros ar gyfer taliadau, sancsiynau, taliadau uniongyrchol a deinameg teuluoedd. Nodwyd yr anawsterau hyn gan ymarferwyr hefyd yn 2018.

Yn ystod arolwg 2018, gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau am effaith CC ar deuluoedd, o amserau aros, i ôl-ddyledion rhent a chynnydd mewn dyled o ganlyniad i hynny. Roedd effaith yn arbennig ar y rhai oedd â chontractau tâl isel, oriau sero, gan fod eu hincwm, os caent unrhyw beth o gwbl, yn amrywio o wythnos i wythnos.

Yn arolwg 2018, crynhodd un ymarferydd y sylwadau a wnaed gan lawer:

"Mae Credyd Cynhwysol yn cael effaith aruthrol. Mae unrhyw beth sy'n sbarduno newid yn achosi problem. Mae arian yn cael ei atal am 5 wythnos, ac mae hynny'n effeithio ar daliadau rhent"

Mae newidiadau i fudd-dal wedi parhau'n broblem gyson ar draws y blynyddoedd dilynol.

Mae **Dyled** hefyd wedi cael lle amlwg yng nghanfyddiadau'r 3 blynedd diwethaf. Eleni, mae wedi codi i'r mater cysylltiedig â thlodi sydd yn safle rhif 1. Trafodir hyn ar hyd yr adroddiad hwn, ac mae wedi dod i'r amlwg fel thema sy'n codi ar draws holl feysydd canfyddiadau arolwg 2021.

Materion tlodi trosfwaol: 2021

Mae'r canfyddiadau isod yn cynnwys mwy o fanylion am y materion trosfwaol cysylltiedig â thlodi a nodwyd yng nghanfyddiadau eleni, ac maen nhw'n cynnwys sylwadau a phwyntiau a wnaed gan ymatebwyr. Dengys y siart sy'n dilyn faterion 2021 yn nhrefn pwysigrwydd yn ôl yr ymatebwyr (y mater ar y brig) a hefyd y rhai oedd yn cael eu nodi ymhlith y 5 uchaf.



Fel mae'r canfyddiadau'n dangos, dewiswyd pob un o'r 17 maes fel materion ar y brig gan yr ymatebwyr. Dyled oedd yn y safle uchaf, gyda materion eraill cysylltiedig ag incwm yn dynn ar ei sodlau, ac at ei gilydd, roedd materion cysylltiedig â dyled ac incwm yn cyfrif am 64% o'r materion a roddwyd yn safle rhif 1.

Pan ofynnwyd iddyn nhw nodi pam roedden nhw wedi rhoi mater penodol yn safle rhif 1, dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn cael trafferth dewis 5 yn unig, gan eu bod yn credu bod cysylltiad agos rhwng pob un o'r dewisiadau a'i gilydd, a'u bod yn effeithio'n uniongyrchol ar ei gilydd. Er enghraifft, roedd cysylltiad rheolaidd rhwng dyled a chyflogaeth am dâl isel a'r system fudd-daliadau, ac roedd cysylltiad rhwng ansicrwydd bwyd a dyled. Roedd sylwadau'r ymatebwyr yn dangos yn amlwg y byddai angen i atebion ystyrlon a chynaliadwy i dlodi ystyried yr holl faterion yn eu crynswth, yn hytrach nag yn ynysig.

Soniodd y rhai a ddewisodd **dyled** am "gylch diddiwedd" ac roedden nhw'n gweld bod dianc rhag dyled a thlodi yn "dasg amhosibl" i deuluoedd. Dywedodd un ymatebydd

"Mae fel bod yn weision ymrwymedig – dewisiadau cyfyngedig, fawr ddim cyfleoedd, dim symudedd. Y cyfan wedi'i gyfyngu nes bod dyledion wedi'u talu"

Cyfeiriwyd yn bennaf at Gredyd Cynhwysol, y 'terfyn dau blentyn', taliadau budd-dal isel, contractau oriau sero, cyflogaeth tymor byr a chyflog isel, costau tai a chostau byw uwch yn gyffredinol fel achosion dyled. Roedd yr ymatebwyr yn gweld bod incwm

anghyson ac anhysbys yn arwain at deuluoedd yn cael trafferth cyllidebu neu gynllunio, ac felly eu bod yn rheolaidd mewn ac allan o ddyled wrth i amgylchiadau eu hincwm a'u cyflogaeth newid.

"Mae lefelau incwm dibynadwy ac incwm a gymerir i dalu dyledion yn allweddol i sut gall teulu ymdopi neu fethu ymdopi ag unrhyw newidiadau i anghenion eu teulu. Mae teuluoedd yn cael eu hunain mewn sefyllfa "catch 22" lle maen nhw'n methu fforddio'r hanfodion megis bwyd neu wisg ysgol i'r plant, ac mae llawer heb fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol. Wedyn maen nhw yn y garfan 'tlodi wrth weithio' sy'n cynyddu'n barhaus, o ganlyniad maen nhw'n mynd i ddyled, ac mae'n troi'n broblem gynyddol o ddefnyddio unrhyw incwm i dalu'n ôl y llog ar ddyledion, yn hytrach na'r ddyled ei hun, a bod heb ddigon o arian byth i gynilo er mwyn prynu eitemau ychwanegol fel gwisg ysgol, esgidiau, anrhegion pen-blwydd etc....mae'r rhain i gyd yn bwysau ychwanegol na ellir talu amdanynt ar incwm isel"

Profiadau'r ymatebwyr oedd bod teuluoedd yn cael y cyfnod o 5-6 wythnos yn aros am **Gredyd Cynhwysol** yn eithriadol o anodd. Roedden nhw'n cydnabod bod y system fudd-daliadau yn caniatái benthyg yn erbyn taliadau yn y dyfodol, ond er bod angen gwneud hynny, roedd hynny'n gwaethygu'r sefyllfa, ac mewn gwirionedd yn "symud y ddyled o gwmpas" yn unig, gan y byddai'r taliadau rheolaidd i deuluoedd yn cael eu lleihau er mwyn talu'r benthyciad yn ôl.

"Yn syml, does gan deuluoedd ddim cymaint o arian ag sy'n angenrheidiol i gadw dau ben llinyn ynghyd, yn arbennig oherwydd y terfyn dau blentyn. Dyw budd-daliadau ddim wedi cynyddu gyda chostau byw ac mae llawer o bobl yn cael eu hunain yn wynebu cap, felly mae ganddyn nhw lai fyth nag sydd angen i ymdopi"

Mewn rhai achosion, dywedodd ymarferwyr fod eu teuluoedd yn teimlo eu bod yn methu chwilio am gyflogaeth tymor byr oherwydd y byddai unrhyw newid i'w hamgylchiadau yn golygu cyfnod anochel o 5 wythnos o oedi ar gyfer Credyd Cynhwysol bob tro, a'u bod nhw'n methu fforddio hynny.

"Mae llawer o deuluoedd yn cael trafferth ymdopi â didyniadau Credyd Cynhwysol a'r her o reoli cyllidebau tynn ar lwfansau di-ddal sy'n amrywio o un mis i'r nesaf"

Gwelwyd mwy o sylwadau yn arolwg eleni nag mewn arolygon blaenorol ynghylch **tlodi mewn gwaith.** Dywedodd ymarferwyr eu bod yn gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd oedd yn profi tlodi lle roedd y rhieni'n gweithio. O'r ymatebwyr oedd yn nodi dyled fel un o'r 5 mater ar y brig, dywedodd 81% fod mwy o deuluoedd yn cael eu gwthio i dlodi o ganlyniad i golli swyddi neu gyfyngu ar oriau.

Nid yw'n eglur ar sail canfyddiadau'r arolwg yn unig ai'r pandemig yn unig, a'i effaith ar gontractau oriau sero, cyflogaeth ac incwm ansicr, sy'n gyfrifol am hyn, neu ai tuedd gynyddol sydd yma.

Nododd yr ymatebwyr na allai llawer o **deuluoedd incwm isel oedd yng weithio** ymdopi ar eu cyflog sylfaenol, a'u bod yn dibynnu ar oriau gwaith ychwanegol bob wythnos. O ystyried y cyfyngiadau cysylltiedig â COVID oedd ar waith, nid oedd llawer o'r oriau ychwanegol hyn ar gael bellach, ac o dan y trefniant ffyrlo (cynllun cadw swyddi), roedd rhai teuluoedd yn wynebu gostyngiad o 20% yn eu hincwm.

"Mae bod ar ffyrlo wedi taro llawer o deuluoedd. Bydd hyn wedi ychwanegu at ddyledion oedd eisoes yn bodoli. Mae teuluoedd wedi prynu pethau sylfaenol ar gredyd/ fenthyciadau diwrnod cyflog ac yn cael trafferth gwneud yr ad-daliadau, sy'n arwain at gostau pellach"

"Mae incwm a chyflogaeth ansicr yn effeithio ar allu'r teuluoedd hyn i ymgysylltu â darpariaeth gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar, gan nad oes gwarant y byddan nhw'n gallu talu amdanynt"

I'r rhai mewn **cyflogaeth lai sicr,** fel contractau oriau sero, cyflogaeth dros dro a thymhorol, nid oedd ffyrlo yn berthnasol, ac felly o ganlyniad gwelsant eu hinswm naill ai'n gostwng yn sydyn neu'n dod i ben yn llwyr. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar y chwalfa mae hynny wedi'i achosi i deuluoedd a'u plant, ac eto mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd mewn dyled.

Yn wyneb incwm llai, teimlai'r ymatebwyr fod dyled yn cynyddu mewn meysydd fel rhent ac ôl-ddyledion cyfleustodau, a nododd nifer hefyd fod y defnydd o fanciau bwyd wedi cynyddu oherwydd y cynnydd mewn dyled. Cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at y cynnydd mewn costau byw o gymharu â chyflogau isel, disymud, a dywedodd llawer fod teuluoedd yn methu cadw dau ben llinyn ynghyd ac yn dibynnu ar fanciau bwyd i oroesi.

"Gall dyled achosi trafferthion iechyd meddwl sy'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun. Mae cleientiaid lluosog yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiymadferth, eu bod yn gwrthod cydnabod y sefyllfa ac yn ofni agor llythyron oherwydd lefel y straen mae hyn yn ei achosi. Mae hynny'n effeithio ar berfformiad rhywun a'u gallu i weithio, eu bywyd cartref, a'u hiechyd, ac yn eu rhoi o dan anfantais aruthrol"

"Rydyn ni'n gweld teuluoedd yn ymlafnio gyda 3 swydd isafswm cyflog ac yn cael trafferth talu am rent a bwyd. Mae eu diet yn cynnwys llawer o fwyd wedi'i brosesu, ac maen nhw fel arfer yn lluddedig"

Dewiswyd **ansicrwydd bwyd** fel un o'r 5 mater cysylltiedig â thlodi sydd ar y brig. Roedd yr ymatebwyr yn gweld bod llawer mwy o deuluoedd naill ai'n cael trafferth bwydo eu plant yn ddigonol neu bellach yn defnyddio banciau bwyd ac yn gorfod dewis rhwng talu'r rhent neu brynu bwyd.

"Allan nhw ddim cyfiawnhau'r costau teithio a gofal plant. Mae swyddi'n cael eu colli, a budd-daliadau yn eu lle. Mae hynny'n achosi dyled i'r teulu, sy'n effeithio ar fwyd"

Soniwyd hefyd am gynnydd yn nifer y plant oedd yn mynychu lleoliadau neu ysgolion yn llwglyd, yn ogystal â chynnydd yn nifer y teuluoedd oedd yn dibynnu ar frecwast am ddim a phrydau ysgol am ddim. Adlewyrchwyd hynny hefyd yng nghanfyddiadau'r arolwg Plant a Phobl Ifanc, gyda 36% yn nodi diffyg arian i brynu cinio neu fyrbryd yn yr ysgol fel problem.

"Mae cynnydd parhaus mewn tlodi bwyd a'r plant llwglyd sy'n cael mynediad i'n gwasanaethau. Plant yn cuddio bwyd i fynd ag e adre i'w rhieni. Plant yn methu canolbwyntio oherwydd eu bod nhw'n newynog. Plant heb dderbyn eu hanghenion sylfaenol"

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod plant llwglyd yn methu canolbwyntio a hoelio'u sylw ar eu gwersi a'u bod yn "methu ymgysylltu â'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw, na hyd yn oed fwynhau eu bywyd pob dydd". Roedd sylwadau eraill yn nodi, er gwaethaf y gefnogaeth oedd ar gael ac yn cael ei chyrchu, fod teuluoedd yn dal i gael trafferth bwydo eu plant.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at **gostau ac argaeledd gofal plant** fel problem. Er bod y sylwadau'n canolbwyntio ar gost uchel gofal plant o gymharu â chyflogaeth incwm isel, roedd sylwadau hefyd ynghylch argaeledd gofal plant. Nid argaeledd daearyddol oedd ffocws y sylwadau, er bod sôn am hynny, ond yr adegau o'r dydd pan oedd gofal plant ar gael.

I lawer, nid yw cyflogaeth incwm isel yn nodweddiadol yn golygu gweithio diwrnod o 9am – 5pm, ond yn hytrach ddechrau neu orffen y tu hwnt i'r amserau hynny, ac maen nhw'n fwy tebygol o weithio ar y penwythnos. Roedd argaeledd gofal plant yn ystod yr oriau hyn yn eithriadol o gyfyngedig, os oedd ar gael o gwbl.

"Rwy'n gweithio gyda llawer o famau sengl a fyddai'n hoffi gweithio, ond mae cael hyd i ofal plant yn anodd iawn, a hefyd mae cost y gofal plant os deuan nhw o hyd iddod"

Roedd **Tai** yn fater arall cysylltiedig â thlodi a ddewiswyd gan gyfran sylweddol (28%) o'r ymatebwyr. Codwyd pryderon ynghylch cost gynyddol rhent, a diffyg 'tai fforddiadwy' a chymdeithasol.

Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen am renti sefydlog, fforddiadwy, a hynny trwy dai cymdeithasol a rhentu preifat. Roedd eu sylwadau yn aml yn sôn am gyfatebiaeth rhwng costau tai a lefelau uwch o ddyled, straen a phryder.

“Dyw tai fforddiadwy ddim yn fforddiadwy i’r rhan fwyaf o deuluoedd”

Soniwyd hefyd am yr angen i deuluoedd deimlo’n ddiogel yn eu cartref, heb fyw mewn ofn cael eu troi allan. Teimlai’r ymatebwyr fod hyn yn hanfodol i lesiant meddyliol holl aelodau’r teulu, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Roedd y mater hwn yn bwysig hefyd i blant a phobl ifanc. Yn eu harolwg nhw, dewisodd 70% ‘pryderu bod ganddyn nhw ddim digon o arian i aros yn eu cartref’ fel problem i’r rhai oedd yn byw mewn tlodi.

“Mae’r rhenti’n aruthrol o uchel. Mae’r cynghorau lleol yn gwrthod talu unrhyw beth agos at gost y rhent. Er enghraifft, derbynnir £374 gan y cyngor am dŷ 2 ystafell wely sy’n costio £500 i fam sengl. Ble mae’r rhiant i gael hyd i’r arian ychwanegol os yw tlodi eisoes yn broblem?”

Iechyd meddyliol ac emosiynol

Ni fu'r arolwg hwn yn holi'n benodol ynghylch llesiant meddyliol ac emosiynol rhieni/gofalwyr a theuluoedd. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau ar iechyd meddyliol ac emosiynol ar hyd yr arolwg cyfan, a daeth i'r amlwg fel thema arwyddocaol. At ei gilydd, gwnaeth 93% o'r ymatebwyr sylwadau ynghylch llesiant emosiynol a iechyd meddwl gwael. Yn ein Harolygon Blynyddol blaenorol, roedd y mater hwn yn un amlwg hefyd, ac fe'i codwyd yn rheolaidd gan yr ymatebwyr. Fodd bynnag, yn arolwg eleni gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y sylwadau a chanran yr ymatebwyr sy'n trafod iechyd meddwl a llesiant emosiynol.

Soniodd ymatebwyr am gynnydd yn nifer y rhieni a'r gofalwyr oedd yn profi gorbryder, pryderon a straen, ac yn cael eu bod yn methu ymdopi eu hunain. Soniwyd hefyd am gynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn profi iechyd meddwl gwael ac yn cael trafferth ymdopi'n emosiynol. Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau'r arolwg plant a phobl ifanc, lle maen nhw'n siarad yn aml am iselder, gorbryder, straen a thristwch.

Adroddodd ymarferwyr fod iechyd emosiynol gwael yn effeithio ar y teulu cyfan, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a bod hynny'n rhoi straen aruthrol ar gydberthynas partneriaid, oedolion a'r teulu cyfan. Mewn rhai achosion, roedd pobl ifanc wedi gadael cartref y teulu. Ar sail canfyddiadau'r arolwg, nid yw'n hysbys a oedd y bobl ifanc hyn yn awr yn ddigartref, neu a oedden nhw wedi cael hyd i gysgod neu lety rywle arall.

"Mae lefelau gorbryder a phroblemau iechyd meddwl rhieni a phlant wedi cynyddu'n ddramatig, sydd hefyd wedi gwaethygu'r sefyllfa gartref"

Cafodd iechyd emosiynol ei drafod yn amlwg, ochr yn ochr â materion cysylltiedig â dyled ac incwm. Gan mai dyma'r materion cysylltiedig â thlodi oedd yn cael eu rhoi yn un o'r 5 safle uchaf amlaf gan yr ymatebwyr, efallai nad yw'n syndod bod hynny'n wir.

"Mae gan blant ymdeimlad cynyddol o eithrio cymdeithasol, sy'n arwain at lefelau uchel o bryder. Dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddigon da ac mae ganddyn nhw lai o obaith"

"Mae'n galed iawn pan fydd y pethau yma uwch eich pen ac rydych chi'n methu gweld ffordd allan. Mae hynny'n arwain at euogrwydd, gan eich bod chi'n gwybod y dylech chi fod yn gwneud mwy ond mae eich ymennydd yn llawn. Mae hynny'n effeithio ar iechyd meddwl a'r cysylltiad rhwng teuluoedd"

"Mae dyled yn dod yn un o'r prif resymau pam mae ein cleientiaid yn galw am gefnogaeth ac mae wedi cynyddu fwyfwy"

"Dywedodd un teulu y bydd yn cymryd blynyddoedd i dalu eu hôl-ddyledion rhent oherwydd bod eu horiau wedi lleihau"

Bu'r ymatebwyr yn myfyrio ar sut roedd straen, gorbryder a iechyd emosiynol gael yn amgylchedd y cartref yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc yn yr ysgol. Gwnaeth llawer y sylw fod pethau'n tynnu sylw'r plant, eu bod yn methu canolbwyntio, ac yn llai tebygol o ymgysylltu â chyfoedion neu addysgwyr pan oedden nhw'n bryderus.

"Mae plant yn llai tebygol o ofyn am fynd ar drip ysgol o ydyn nhw'n gwybod y bydd yn achosi mwy o straen neu ddadl yn y teulu. Os yw plant dan straen oherwydd arian, bydd hynny'n effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio a rhoi o'u gorau"

"Mae plentyn yn ymwybodol o lawer o'r pethau dieiriau a'r straen yn y cartref, ac mae'r teulu cyfan yn teimlo'r pwysau ariannol"

Roedd yr ymatebwyr yn sylweddoli bod materion cysylltiedig â dyled ac incwm yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd emosiynol rhieni/gofalwyr, plant a phobl ifanc. Roedd hynny'n effeithio ar eu gallu i ymdopi â sefyllfaoedd a'u rheoli, ac yn achos plant, ar eu gallu i ymgysylltu ag addysg.

"Mae llawer o blant sy'n byw mewn tlodi yn ymwybodol o dreialon eu rhieni ac maen nhw'n cario'r baich yna gyda nhw yn yr ysgol. Maen nhw'n methu canolbwyntio, yn bryderus, yn poeni ac yn grac"

"Mae cyflogau isel yn effeithio ar y teulu cyfan, trwy straen gallu talu am fwyd, rhent, biliau etc. Mae cyflogau isel yn arwain at dlodi, sydd â chysylltiad uniongyrchol â chyrhaeddiad addysgol is a iechyd corff a meddwl gwael. Mae hynny yn ei dro yn rhoi plant o dan anfantais ac yn golygu bod cylch tlodi'n parhau i mewn i'w bywydau fel oedolionin"

Mae'n werth nodi na holodd yr arolwg yr ymatebwyr ynghylch eu hiechyd meddwl eu hunain.

Fodd bynnag, trwy nifer o'r sylwadau a roddwyd, mae'n amlwg bod effeithiau tlodi hefyd yn dylanwadu ar iechyd emosiynol y gweithlu ymroddedig sydd wedi ymrwymo i weithio gyda phlant a theuluoedd. Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod yn aml yn teimlo'n rhwystredig, yn ddiymadferth, yn bryderus ac yn benisel ynghylch amgylchiadau byw nifer cynyddol o'r plant a'r teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Effaith COVID ar dlodi

Roedd yr arolwg eleni o reidrwydd yn cynnwys cwestiynau am effaith COVID ar y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd hynny sy'n byw mewn tlodi. Ar sail eu profiadau a'u harsylwadau, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd y sefyllfa wedi newid, at ei gilydd, i'w defnyddwyr gwasanaeth.

At ei gilydd, ydy'r sefyllfa wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd effaith y pandemig?



Gyda mwyafrif mor fawr o'r ymatebwyr (89%) yn datgan bod y sefyllfa wedi gwaethygu, roedd eu sylwadau yn anochel yn cwmpasu ystod eang o faterion, ond yn gyffredinol yn adlewyrchu'r rhai oedd eisoes wedi'u nodi ymhlith y 5 mater amlycaf cysylltiedig â thlodi yn yr adran flaenorol.

Eto, cafwyd y nifer mwyaf o sylwadau am **ddyled**, y cyfeiriwyd ato fel y prif reswm pam roedd y sefyllfa wedi gwaethygu i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd yr ymatebwyr wedi gweld cynnydd dramatig yn lefel dyled a nifer y teuluoedd oedd yn byw gyda dyled neu'n ceisio help gyda dyledion.

"Mae llawer o rieni wedi colli eu swyddi, sydd wedi cael effaith negyddol ar eu sefyllfa ariannol, ond maen nhw wedi wynebu costau ychwanegol plant sydd gartref, gwresogi'r tŷ, mwy o fwyd, plant eisiau byrbrydau neu rieni'n prynu offer i'w helpu i addysgu gartref"

O'r rhai a gyfeiriodd at ddyled, dywedodd 81% fod mwy o deuluoedd yn cael eu gwthio i dlodi oherwydd colli incwm, cyflogaeth, colli oriau gwaith ychwanegol a chynnydd yng ngwariant angenrheidiol teuluoedd oherwydd eu bod gartref (bwyd, cyfleustodau a data). Y cyfuniad hwn oedd yr hyn y cyfeiriwyd ato amlaf fel rheswm am y cynnydd mewn dyled.

"Llawer o deuluoedd mewn dyled nawr ac yn wynebu blynyddoedd o geisio talu nôl"

"Mae rhieni'n mynd heb wres, bwyd a dillad i sicrhau bod eu plant yn cael popeth mae arnyn nhw ei angen"

"Mae arian, trwy golli swyddi, yn effeithio ar fynediad at fwyd a gwres. Mae dyled ar gynnydd"

Yn achos y rhieni/gofalwyr hynny oedd yn dal yn

gyflogedig, profodd llawer ostyngiad o 20% yn eu hincwm o dan drefniadau ffyrlo (y cynllun cadw swyddi). Cafodd y gostyngiad hwn effaith sylweddol ar allu teuluoedd niferus mewn cyflogaeth ran amser neu dâl isel i ymdopi'n ariannol.

Cafodd cyfyngiadau COVID effaith hefyd ar ofal plant i lawer o deuluoedd. O dan fesurau COVID caeodd llawer o leoliadau ac yn achos y rhai oedd yn defnyddio **gofal plant** anffurfiol, megis teulu neu ffrindiau, roedd cyfyngiadau llym ar hynny hefyd, neu bu'n rhaid iddo ddod i ben.

"Mae rhieni wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith oherwydd diffyg gofal plant tra bod ysgolion a meithrinfeydd ar gau"

Yn ôl yr ymatebwyr, yn achos y rhieni/gofalwyr hynny oedd yn dal â chaniatâd i fynd allan i weithio, nid oedd hynny bob amser yn bosibl heb ofal plant. O ganlyniad, bu'n rhaid i lawer o deuluoedd roi'r gorau i'w cyflogaeth o'u gwirfodd er mwyn gofalu am eu plant. Yn achos y rhai oedd yn gallu gweithio o bell, bu llawer yn cael trafferth ymdopi gyda gofal am blant ifanc, addysgu plant hŷn gartref, a fforddio neu sicrhau mynediad i ddata ychwanegol a dyfeisiau. Eto, nododd yr ymatebwyr fod rhaid i deuluoedd wneud dewisiadau anodd rhwng gweithio a gofal plant.

Fel mewn adrannau eraill, cyfeiriwyd yn fynych at **Gredyd Cynhwysol**. Gwelodd yr ymatebwyr amgylchiadau cyflogaeth llawer o'u teuluoedd yn newid yn sydyn. Arweiniodd y newidiadau hynny at hawliadau CC newydd, fel bod cyfnod 5 wythnos o oedi cyn i'r hawlwyr dderbyn arian ychwanegol. Roedd llawer o deuluoedd oedd yn gweithio eisoes yn cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd ac yn byw 'o'r llaw i'r geg'. Gyrrodd y cyfnod hwn o aros heb gyflog na budd-dal lawer o deuluoedd ymhellach i ddyled.

Gwnaeth ymateb sylwadau hefyd fod nifer y disgyblion oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi codi'n sydyn, bod datblygiad plant wedi cael ei lesteirio, a bod cynnydd yn nifer y teuluoedd oedd â thai annigonol a chynnydd yn nifer y ceisiadau am lety dros dro.

Dywedodd ymatebwyr fod cynnydd mewn **digartrefedd ieuenctid**, a chyfeiriwyd amlaf at gydberthynas deuluol yn chwalu. Yn aml roedd y cyfnod clo, diffyg incwm a mwy o straen ariannol ac emosiynol yn dwysáu hyn. Roedd pryder hefyd bod cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i bobl ifanc wedi cael eu colli neu eu cyfyngu'n ddifrifol, ac y byddai hynny'n cael effaith hirdymor ar eu dyfodol.

Roedd yr ymatebwyr hynny (11%) oedd yn teimlo bod y sefyllfa wedi parhau'r un fath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gyffredinol yn gwneud y sylw nad oedd effaith lawn COVID i'w gweld eto.

"Anodd ateb gan fod ffyrlo wedi llenwi bwlch a dydyn ni ddim wedi cael mynediad i'n cronfa o gwsmeriaid fel buasen ni'n arferol"

"Does dim byd wedi newid. Mae mamau'n dal i fethu cael hyd i waith, gofal plant etc."

"Anodd dweud, achos dwy ddim yn credu ein bod ni wedi gweld yr effaith lawn eto"

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr oedden nhw'n meddwl byddai mwy o deuluoedd yn cael eu gwthio i dlodi oherwydd y sefyllfa gyflogaeth yn ystod COVID

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn datgan bod llawer o rieni wedi colli eu swyddi yn ystod y pandemig. Ymhlith y rhesymau am hynny roedd anallu i deithio i'r gwaith oherwydd bod llai o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael, colli gwaith tymhorol a chontractau oriau sero, diffyg argaeledd gofal plant a dileu swyddi. Roedd dibyniaeth drom hefyd ar waith yn y diwydiant lletygarwch a gwasanaeth, a fu i gyd ar gau yn ystod y pandemig.

Yn achos y teuluoedd hynny oedd yn gweithio ac yn gymwys i fod **ar ffyrlo**, ymddengos bod hynny wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol iddyn nhw. Er bod eu cyflogau wedi gostwng i 80%, roedd eu hincwm yn sefydlog ar hyd y cyfnod ffyrlo. Fodd bynnag, yn achos mwyafrif teuluoedd yr ymatebwyr, roedd gostyngiad incwm o 20% ar ffyrlo yn drychinebus ac yn gwthio teuluoedd ymhellach i ddyled.

Adroddodd yr ymatebwyr, wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben, fod teuluoedd yn profi incwm mwy ansefydlog, gostyngiad yn eu horiau a newidiadau negyddol i gontractau cyflogaethpresennol o gymharu â'r cyfnod cyn-COVID. Roedden nhw'n dweud bod yr oedi o 5 wythnos wrth aros am Gredyd Cynhwysol yn gwaethygu hynny ymhellach.

"Ffyrlo wedi dod i ben, nawr nôl i gontract oriau sero. Gyda ffyrlo roedden nhw'n cael swm penodol, nawr mae nôl i beidio â gwybod pa oriau nac arian gân nhw"

At ei gilydd, er bod yr ymatebwyr yn cydnabod bod COVID a'r cyfyngiadau wedi effeithio ar bawb, roedden nhw'n credu mai'r rhai oedd yn byw mewn tlodi oedd wedi teimlo'r effaith fwyaf. Maen nhw'n gweld mwy a mwy o deuluoedd yn colli eu swyddi, a'r rhai oedd yn llwyddo o drwch blewyn bob mis yn awr yn methu ymdopi'n ariannol.

"Mae llawer o rieni wedi colli eu swyddi oherwydd eu bod yn methu gweithio yn ystod y pandemig. Os oedd pobl yn wynebu risg uchel eu hunain neu os oedd eu plant yn y grŵp bregus, roedd rhaid iddyn nhw roi'r gorau i weithio flwyddyn yn ôl. Mae rhai rhieni wedi gweithio cynifer o oriau oherwydd eu bod yn gorfod gofalu am blant yn ystod cyfnodau clo neu oherwydd eu bod wedi colli gofal plant (e.e. neiniau a theidiau yn y categori bregus). Mae'r caledi ariannol hwn wedi parhau am fwy na blwyddyn. Mae hyn yn naturiol wedi'u gwthio ymhellach i dlodi, a fydd e ddim yn hawdd i deuluoedd sicrhau swydd mewn cystadleuaeth â phawb arall y mae hyn wedi effeithio arnyn nhw"

Roedd yr argyfwng wedi amlygu materion oedd eisoes yn bodoli, ac yn achos mwyafrif teuluoedd yr ymatebwyr, mae'r materion hyn bellach yn fwy difrifol, wedi ehangu'r bwlch anghydraddoldeb, ac wedi gwthio nifer cynyddol o deuluoedd i dlodi. Maen nhw'n credu bod y pandemig wedi rhoi straen digynsail ar y rhai sy'n byw mewn tlodi, a bod y canlyniadau'n debygol o fod yn rhai hirhoedlog i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Codi lefel Credyd Cynhwysol dros dro

Ym mis Ebrill 2020, yn ystod cyfyngiadau cyfnod clo cychwynnol COVID, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gynnydd dros dro o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol. Roedd disgwyl i'r cynnydd hwn barhau tan ddiwedd Ebrill 2021, ac mae bellach wedi cael ei estyn i fis Medi 2021. Roedd ein harolwg yn ceisio deall a oedd y cynnydd hwn wedi helpu teuluoedd, a pha effaith, os o gwbl, byddai dod â'r cynnydd i ben yn ei chael ar deuluoedd.



Ar sail eu profiad a'u harsylwadau, gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar y gwahaniaeth roedd y cynnydd dros dro wedi'i wneud i deuluoedd. Mae eu sylwadau'n dangos bod y cynnydd wedi cael ei groesawu, a bod y buddion i deuluoedd wedi bod yn bell-gyrhaeddol.

"I lawer o deuluoedd sydd ar fin llithro i dlodi eithafol yn barhaus, mae'r cynnydd hwn mewn incwm wedi'u cadw'n fyw"

Fe ganfuon nhw fod y cynnydd wedi golygu bod plant yn cael mwy o fwyd, neu fwy o safon uwch, cartrefi cynhesach, ei fod wedi helpu i leihau straen a phryder ariannol, wedi cau'r bwlch rhwng costau rhent a lwfans tai, ac yn achos rhai teuluoedd, wedi lleihau'r tebygolrwydd ohonyn nhw'n suddo ymhellach i ddyled.

"Adroddodd tad sengl ar 3 o blant na fyddai, heb gael yr £20 yr wythnos, wedi gallu rhoi digon o fwyd i'w blant. Mae eisoes yn pryderu sut bydd e'n ymdopi pan ddaw'r arian i ben"

Er bod yr ymatebwyr yn cydnabod bod y cynnydd dros dro wedi bod yn aruthrol fuddiol ac wedi cynorthwyo teuluoedd yn sylweddol, gan weithredu fel 'rhwyd ddiogelwch' i rai, roedden nhw hefyd yn amlygu nad yw'r cynnydd mewn CC yn ddigonol ar ei ben ei hun. Mae teuluoedd yn dal i gael trafferth i brynu bwyd, talu biliau yn ogystal â'u rhent a'u costau tai cysylltiedig. O dan lawer o amgylchiadau, nid oedd y cynnydd yn ddigon ar gyfer holl gostau bwyd ychwanegol, cyfleustodau a defnydd o ddata ym ystod y cyfnodau clo, ac roedd dyledion wedi cynyddu.

"I lawer o deuluoedd sydd wedi bod mewn trafferth ac wedi cael eu gorfodi i ddysgu bwy ar y swm lleiaf posibl, gall yr £20 yma olygu bron gwerth wythnos o brydau bwyd"

Gofynnwyd i ymarferwyr hefyd beth roedden nhw'n meddwl allai ddigwydd pan fyddai'r cynnydd dros dro o £20 yr wythnos yn dod i ben. At ei gilydd, dywedodd ymatebwyr y bydd eu teuluoedd yn cael trafferth ymdopi yn ariannol ac yn emosiynol. Roedd pryder yn arbennig ynghylch y nifer o deuluoedd sydd mewn dyled ar hyn o bryd, y byddai'n rhaid iddyn nhw fynd ymhellach i ddyled, yn ogystal â phryder ynghylch y teuluoedd hynny sydd ar hyn o bryd "ond yn llwyddo i oroesi o ryw fymryn". Roedd ymatebwyr yn credu y byddai nifer y teuluoedd oedd yn profi dyled ac ôl-ddyledion rhent am y tro cyntaf hefyd yn cynyddu.

"Bydd effaith ei ddileu yn drychinebus, gan fod costau'n codi ac mae gan gynifer o bobl gyflog disymud a llai o oriau nag o'r blaen"

Wedi i'r cynnydd mewn CC gael ei ddileu, mae ymatebwyr yn disgwyl y canlynol:

- Nifer cynyddol o deuluoedd yn gorfod defnyddio banciau bwyd
- Cynnydd mewn dyled
- Cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent
- Amgylchedd cartref gwaelach, gan gynnwys cartrefi oerach
- Mwy o bryder, straen a theimlo cywilydd ymhlith oedolion a phlant
- Mwy o blant yn cael trafferth yn yr ysgol
- Mwy o blant yn teimlo'n llwglyd

Prydau ysgol am ddim

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr ystyried a oedd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi estyn prydau ysgol am ddim (FSM) yn ystod cyfyngiadau COVID, a hynny yn ystod y tymor a thrwy'r gwyliau, wedi helpu teuluoedd. Roedd nifer aruthrol o'r ymatebwyr, 95%, yn credu bod y ddarpariaeth hon yn helpu.



Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd oedden nhw'n meddwl y dylai mwy o blant fedru hawlio prydau ysgol am ddim, ac os felly, pam roedden nhw'n meddwl bod hynny'n bwysig.

Pan holwyd pam y dylai'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim gael ei hestyn, roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar nifer o feysydd: newyn; maeth; cymhwysedd a thlodi mewn gwaith; cyrhaeddiad addysgol; addysg bellach; cydraddoleb; cynhwysedd a dileu stigma, gwirioneddol neu ganfyddedig, derbyn prydau ysgol am ddim. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr at o leiaf 2 o'r materion hyn yn eu hymatebion unigol.

"All plant llwglyd ddim dysgu"

Roedd yr angen am leihau newyn a gwella maeth yn bwysig i'r ymatebwyr. Cyfeiriwyd yn rheolaidd at brydau ysgol am dim fel modd i wella gallu plant i ganolbwyntio, eu hymddygiad a'u maeth, a fyddai yn ei dro yn arwain at well ymgysylltiad a chyrhaeddiad addysgol. Roedd yr ymatebwyr yn credu "na ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd yn 2021" ac mai pryd yn yr ysgol yn aml oedd yr unig bryd y byddai llawer o blant yn ei dderbyn y diwrnod hwnnw.

"Bydd rhai plant yn cael tost i frecwast ac ar gyfer pryd gyda'r hwyr"

"Rwy'n gweld llawer o blant heb fawr ddim yn eu bocsys bwyd. Gall y dewisiadau hyn amrywio o un croissant i frechdan fara – mae'n arswydus"

"All plant llwglyd ddim dysgu""Elfen gyntaf addysg yw bwydo pobl. Roedd hyd yn oed y wyrcws yn bwydo pobl"

Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau ynghylch y cynnydd mewn tlodi wrth weithio a datgan bod y meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn rhy isel.

"Rwy'n credu y dylai pob plentyn fedru hawlio prydau ysgol. Wrth edrych ar ddisgyblion ar draws yr ysgol rwy'n cael trafferth deall pam nad oes mwy o blant yn gymwys, mae yna garfan gyfan o deuluoedd ryw fymryn uwchlaw'r trothwy sy'n cael trafferht mawr ymdopi"

Canfu'r ymatebwyr fod mwy o blant ag angen prydau ysgol am ddim nag oedd yn eu derbyn. Gwnaeth llawer iawn o'r ymatebwyr sylw am hyn, ac roedd yn adlewyrchu'r canfyddiadau bod 89%

yn credu y dylai prydau ysgol am ddim fod ar gael i fwy o blant.

"Rwy'n credu, hyd yn oed os yw rhieni'n gweithio ac yn ennill mwy na'r isafswm cyflog ar gyfer prydau ysgol am ddim, nad yw hynny'n golygu eu bod nhw ddim yn cael trafferth ymdopi. Yn aml dydyn nhw ddim yn derbyn cefnogaeth ariannol arall, a byddai prydau ysgol am ddim yn gadael ychydig dros ben ar gyfer cynnal a chadw'r car, er enghraitt, sy'n gallu bod yn ffactor pwysig o ran gallu parhau i weithio"

Amlygodd ymatebwyr hefyd fanteision eraill prydau ysgol am ddim, megis helpu i leihau dyledion, lleihau'r angen am ddefnyddio banciau bwyd, a chaniatáu mynediad i grantiau disgyblion a chymorth ariannol arall.

"Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw o leiaf hanner y plant yng Nghymru sy'n byw o dan y llinell dlodi yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac felly eu bod nhw ddim yn gymwys i dderbyn budd-daliadau eraill fel grantiau gwisg ysgol. Mae hon yn enghraifft ddifrifol ac annerbyniol o anghydraddoldeb. Fel prif beilot ar gyfer newyn gwyliau, mae ein caffi cymunedol di-dâl i blant yn bwydo 70-90o blant a phobl ifanc ar ôl ysgol bob dydd"

Cysylltwyd cymhwysedd hefyd â sylwadau ar gydraddoldeb, cynhwysedd, stigma ac, mewn rhai achosion, llesiant emosiynol. Credai'r ymatebwyr y byddai cynyddu'r trothwy cymhwysedd yn caniatáu i fwy o blant dderbyn prydau ysgol am ddim, ac felly'n lleihau anghydraddoldeb. Byddai'n gwella cynhwysedd ac yn "ffordd wych o atal disgyblion rhag cymharu ei gilydd ag eraill". Wrth i fwy o ddisgyblion gael prydau ysgol am ddim, byddai hynny'n "lleihau'r stigma i'r rhai oedd yn eu derbyn". Mae canfyddiadau'r arolwg plant a phobl ifanc hefyd yn cefnogi hyn, ac at ei gilydd, roedden nhw am weld prydau ysgol am ddim i bob plentyn.

"Gyda chynifer o blant yn tyfu i fyny o dan y llinell dlodi neu arni, a degau o filoedd yn profi amddifadedd materol ac ansicrwydd bwyd hefyd, mae'n gwbl ddiegwyddor ein bod yn caniatáu i unrhyw blentyn fod yn llwglyd yn yr ysgol. Mae gormod o deuluoedd yn cael trafferth fforddio costau'r ysgol, ac mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio a'u gadael allan os ydyn nhw'n methu mwynhau'r un bwyd â'u ffrindiau. Rwy'n credu y dylai fod prydau bwyd am ddim yn gyffredinol i bob dysgwr yn yr ysgol, oherwydd profwyd bod hynny'n rhoi hwb i gyrhaeddiad, iechyd, cynhwysiad a llesiant"

Roedd prydau ysgol am ddim mewn addysg bellach hefyd yn faes a amlygwyd yn y sylwadau. Nodwyd, er bod y grant EMA yn cynnig £30 yr wythnos i ddisgyblion, bod sefyllfa ariannol wael llawer ohonynt gartref yn golygu bod "llawer o bobl ifanc yn rhoi hynny'n uniongyrchol i'r rhieni ac yn aml yn dal heb ginio."

Banciau bwyd

Roedd yr arolwg yn ceisio sicrhau dealltwriaeth o hyd a lled y defnydd o fanciau bwyd ymhlith y teuluoedd mae ymatebwyr yn gweithio gyda nhw. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn isafswm o 33,000 o deuluoedd.

Gofynnwyd i ymatebwyr amcangyfrif pa ganran o'u teuluoedd oedd yn defnyddio banciau bwyd o leiaf unwaith y mis.



O ystyried cyfyngiadau arolwg a'r ffigurau a amcangyfrifwyd, nid yw ffigur manwl gywir yn bosibl. Fodd bynnag, ar sail y canfyddiadau a sylwadau'r ymatebwyr, mae'n amlwg bod defnydd eang o fanciau bwyd, a bod hynny'n angenrheidiol i deuluoedd yn rheolaidd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd mwyafrif o'u teuluoedd yn fwy neu'n llai tebygol o ddefnyddio banc bwyd, o gymharu â chyn i'r mesurau cyfyngu cyntaf ddod i rym yn sgîl COVID (Mawrth 2020).

Dywedodd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr, 77%, fod y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw yn awr yn fwy tebygol o ddefnyddio banc bwyd, gydag 19% yn gweld yr un angen, a dim ond 4% o deuluoedd yn llai tebygol o ddefnyddio banc bwyd.

Adroddodd ymatebwyr eu bod yn gwneud nifer cynyddol o atgyfeiriadau i fanciau bwyd ac yn cynghori teuluoedd eu bod yn gymwys. Doedd llawer o deuluoedd oedd mewn trafferthion ac mewn angen difrifol am gymorth ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n gallu derbyn cymorth gan fanciau bwyd. Roedd hyn yn arbennig o wir am rai oedd yn defnyddio banc bwyd am y tro cyntaf.



"Doedd nifer o'm teuluoedd ddim yn gwybod eu bod nhw'n gallu mynd i'r banciau bwyd, ac yn credu eu bod nhw i'r di-waith yn unig"

Roedd llawer o sylwadau yn nodi'r stigma ynghylch defnyddio banciau bwyd fel rhwystr i dderbyn cymorth ac yn nodi bod teuluoedd yn aros nes eu bod mewn argyfwng cyn eu defnyddio. I lawer, roedd oedi fel hyn wedi eu gwthio ymhellach i ddyled. Roedd un ymatebydd yn cydnabod bod nifer o deuluoedd ddim yn defnyddio banciau bwyd oherwydd hyn, a'u bod yn y broses o "ailwampio sut mae banciau bwyd yn cael eu hyrwyddo".

Rhoddwyd rhesymau niferus am y cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd, gan gynnwys colli cyflogaeth, lleihau incwm (oriau sero a llai o oriau, ffyrlo), cynnydd yng ngwariant aelwydydd yn ystod cyfnodau clo a Chredyd Cynhwysol.

"Colli enillion trwy COVID, yna aros am 5 wythnos, o leiaf, i fudd-daliadau gyrraedd. 5 wythnos heb arian, banciau bwyd yw'r unig opsiwn"

"Oherwydd bod credyd cynhwysol yn cymryd mor hir, mae nifer o deuluoedd wedi dibynnu ar fanciau bwyd lleol i fwydo eu teuluoedd"

Cyfeiriwyd yn rheolaidd at Gredyd Cynhwysol fel ffactor pwysig yn nifer y teuluoedd sy'n gorfod defnyddio banciau bwyd, yn arbennig yn ystod yr isafswm o 5 wythnos pan fydden nhw'n aros am daliadau.

Soniodd ymatebwyr hefyd am weld cynnydd yn y defnydd gan deuluoedd oedd ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r sylwadau'n dangos bod y rhain yn fwy tebygol o fod yn defnyddio banciau bwyd am y tro cyntaf, ac er eu bod mewn trafferthion o'r blaen ac yn cael anhawster ymdopi, roedd cost ychwanegol cadw'r plant gartref yn ystod y cyfnod clo wedi golygu bod rhaid iddyn nhw ddefnyddio banciau bwyd.

"Mae teuluoedd sy'n gweithio sydd wedi cael eu rhoi o'r neilltu neu ar ffyrlo wedi gofyn am help am y tro cynta"

"Yn ystod y cyfnod clo roedd gennym ni deuluoedd yn derbyn pecynnau bwyd yn yr ysgol oedd erioed wedi gwneud hynny o'r blaen, ac mae hynny wedi parhau"

"Mae llawer o deuluoedd yn troi aton ni mewn sefyllfa anobeithiol yn gofyn am dalebau banc bwyd"

"Mae ein teuluoedd wedi dibynnu arnyn nhw wrth i oriau gwaith gael eu lleihau neu pan nad oedd modd cael hyd i ofal plant amgen ac roedd rhaid iddyn nhw roi'r gorau i weithio"

Cododd rhai ymatebwyr fater mynediad gwael at fanciau bwyd mewn ardaloedd gwledig. Roedd yr holl sylwadau hyn yn ymwneud â'r pellter roedd angen i deuluoedd ei deithio, a'r ffaith bod cost teithio yn ormod i rai.

I'r rhai a welodd ddefnydd o fanciau bwyd naill ai'n aros yr un fath neu'n gostwng, gwnaeth rhai y sylw nad oedden nhw bellach yn gwneud atgyfeiriadau nac yn darparu cyngor, gan fod y teuluoedd bellach yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau.

Cynhwysiad digidol

Yn ein harolwg byr, COVID-19 a'i effaith ar deuluoedd incwm isel a difreintiedig, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf/Awst 2020, fe wnaethon ni holi oedd cynhwysiad digidol yn broblem i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Dangosodd y canfyddiadau fod hynny'n wir, gan fod 64% o'r ymatebwyr wedi nodi hynny fel problem. Ychydig llai na blwyddyn yn ddiweddarach, mae 59% o'r ymatebwyr yn cyfeirio at hyn fel problem o hyd ar gyfer y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw, ac mae 21% arall yn nodi bod mynediad cyfredol at ddyfais yn digwydd dros dro ac yn bosib trwy gynlluniau benthyg yn unig. Dengys y ffigurau hyn fod cynhwysiad digidol yn dal yn broblem i niferoedd mawr o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru.



Yn yr arolwg hwn, fe gawson ni gyfle i archwilio hyn ymhellach, a buon ni'n holi am fynediad at ddyfeisiau a data. Gofynnwyd i'r ymatebwyr seilio eu hatebion ar a oedd gan y mwyafrif o'r plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw fynediad at ddyfais a data.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod 55% o'r ymatebwyr yn dweud bod rhaid i fwyafrif y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd roedden nhw'n gweithio gyda nhw yn gorfod rhannu dyfais, naill ai gyda sibling neu oedolyn, a dywedodd 11% arall nad oedd ganddyn nhw fynediad at ddyfais, neu bod y ddyfais yn anaddas.

Dangosodd sylwadau ynghylch dyfeisiau a rennid fod teuluoedd wedi cael trafferth i drefnu i rannu amser ar ddyfeisiau i'w plant, a'u bod yn aml yn cael bod hynny'n dasg amhosibl. Amserau gwersi ar-lein yn gwrthdaro â rhai siblingiaid; tynnu sylw plant yn ystod eu hamser ar ddyfais oherwydd bod siblingiaid eraill yn gwneud "pethau difyr a gweithgareddau"; a chael hyd i amser tawel i ganolbwyntio oedd rhai o'r anawsterau y cyfeiriwyd atynt.

"Un teulu gyda 3 o blant, pob un ohonyn nhw ag anghenion gwahanol, a dim ond un gliniadur i'w rannu. Roedd yn gwneud dysgu ar-lein yn anodd i bawb"

Nid dim ond rhannu dyfeisiau oedd yn achosi problemau, ond hefyd addasrwydd y dyfeisiau hynny. I rai plant a phobl ifanc, yr unig ddyfais oedd

ar gael iddyn nhw oedd ffôn clyfar rhiant. Cyfeiriodd ymatebwyr at blant yn ceisio cwblhau gwaith ysgol ar y math yma o ddyfais, yn cael yn y pen draw ei fod yn rhy anodd, ac yn teimlo'n rhwystredig ac yn colli diddordeb.

Hyd yn oed os oedd ganddyn nhw ddyfais i'w defnyddio, pa mor gyfyngedig neu anaddas bynnag oedd honno, roedd plant yn dal i gael trafferth cyflawni gwaith ysgol gartref heb gyfarpar ychwanegol. Er enghraifft, roedd rhai gweithgareddau a gwersi yn galw am argraffydd. Amlygodd un ymatebydd eu bod bellach, oherwydd hyn, yn darparu argraffydd, inc a phapur i deuluoedd.

"Mae hon yn broblem barhaus gyda thasgau gwaith cartref, heb ystyried y cyfnodau clo"

Hyd yn oed os oedd ganddyn nhw ddyfais i'w defnyddio, pa mor gyfyngedig neu anaddas bynnag oedd honno, roedd plant yn dal i gael trafferth cyflawni gwaith ysgol gartref heb gyfarpar ychwanegol. Er enghraifft, roedd rhai gweithgareddau a gwersi yn galw am argraffydd. Amlygodd un ymatebydd eu bod bellach, oherwydd hyn, yn darparu argraffydd, inc a phapur i deuluoedd.

Bydd daearyddiaeth, lleoliad a dalgylchoedd ysgol yn anochel wedi dylanwadu ar nifer y plant a'r bobl ifanc oedd angen dyfais. Byddai hynny, felly, yn cael effaith ar allu gwasanaethau lleol i ariannu a darparu cyfarpar. Mewn rhai ardaloedd, roedd lefel yr angen yn isel, ond mewn eraill roedd yn uchel iawn. Rhannodd un ymatebydd ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd yn eu hysgol i blant o'r derbyn i flwyddyn 6.

- **Dywedodd 5% nad oedd ganddyn nhw gysylltedd priodol (wifi)**
- **Roedd 16% heb fynediad at ddyfais (Chromebook, gliniadur, ffôn, iPad, consol gêmau)**
- **Mae 44% heb fynediad at ddyfais briodol i fedru cwblhau dysgu gartref**

Roedd yr ysgol dan sylw yn gallu darparu dyfeisiau trwy gynllun benthyca, a bu hefyd yn dosbarthu 104 o ddyfeisiau a gyfrannwyd, yr oedd teuluoedd yn gallu eu cadw. Darparodd yr ysgol hefyd unedau MiFi.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod cynlluniau benthyca a'u gwerth ac yn wir, mewn llawer o achosion roedden nhw naill ai'n ymwneud â chynllun lleol trwy ysgolion unigol, cymunedau ac awdurdodau lleol neu gynllun cenedlaethol 'Donate IT Wales'. Derbyniodd llawer o blant a phobl ifanc ddyfeisiau trwy'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, cododd bron hanner yr ymatebwyr faterion hefyd ynghylch rhai cynlluniau benthyca. Roedd ymatebwyr yn pryderu nad oedd y rhai oedd â'r angen mwyaf wedi derbyn dyfais, naill ai oherwydd anawsterau'n cysylltu â gwasanaethau neu oherwydd bod dyfeisiau, mewn nifer o achosion, yn cael eu benthyg i'r rhai oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn unig.

"Fe glywson ni gan blant mewn angen a gafodd eu gwrthod am help oherwydd nad oedden nhw'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddi"

"Bu llawer o blant yn aros ar hyd y cyfnod clo am liniadur na chyrhaeddodd byth"

Gwnaeth llawer sylwadau am safon a phriodoldeb y dyfeisiau a roddwyd i'w teuluoedd, gan gyfeirio at y ffaith bod problemau technegol gyda nifer fawr o'r ddyfeisiau a fenthyciwyd. Roedd hynny'n golygu bod plant a phobl ifanc yn dal heb fynediad at wasanaethau cymorth a gwersi ar-lein. Nid oedd gan deuluoedd yr wybodaeth dechnegol i drwsio problemau, hyd yn oed rhai bach, ac roedd hynny'n golygu nad oedd modd defnyddio'r dyfeisiau. Pan fyddai teuluoedd yn rhoi gwybod i ddarparwyr am anawsterau, caent yr ateb nad oedd dyfais arall ar gael, gan fod popeth eisoes wedi cael ei roi ar fenthyg.

"Cafodd eraill fenthyg chrome books oedd braidd yn gweithio, neu roedden nhw'n gweithio oddi ar dabled er mai system gyda bysellfwrdd oedd angen"

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau hefyd ynghylch faint o amser gymerwyd i gynnig neu fenthyca dyfeisiau i blant a phobl ifanc, a nododd rhai fod dyfeisiau'n dal heb gael eu derbyn (cwblhawyd yr arolwg ym mis Ebrill/Mai 2020).

Er bod anawsterau gyda chynlluniau benthyg wedi'u nodi gan nifer sylweddol o ymatebwyr, roedd hefyd enghreifftiau niferus o fentrau cadarnhaol a gwaith i ymdrin â'r diffyg mynediad at ddyfeisiau. Rhoddwyd enghreifftiau o bartneriaethau ariannu a chyflwyno

rhwng elusennau, gwasanaethau statudol, cymunedau, ysgolion a busnesau lleol.

"Mae rhieni ifanc â phlant oed ysgol wedi cael trafferth cefnogi eu plant yn ddigidol â ffôn symudol yn unig. Rydyn ni wedi llwyddo i sicrhau cyllid i brynu rhai gliniaduron a data ar eu cyfer"

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau bod nifer o wasanaethau wedi newid eu dull o weithio yn ystod y pandemig. Mewn rhai achosion, roedd gwasanaethau cymorth wedi cynnig oriau estynedig, gan gynnwys gyda'r hwyr, oedd yn osgoi brwydro i rannu mynediad, ac roedd ysgolion yn ymweld â theuluoedd ac yn darparu gwaith ar bapur lle roedd mynediad at ddyfeisiau yn broblem.

"Fel elusen, derbyniodd dros 70% o'r plant y buon ni'n eu cefnogi liniadur/dabled neu wifi. Mae rhieni/gofalwyr wedi dweud wrthyn ni na fydden nhw wedi gallu cael mynediad i addysgu gartref heb hynny, na siarad â ffrindiau a theulu. Soniodd llawer eu bod yn ceisio cwblhau gwaith ysgol ar ffôn clyfar Mam cyn hynny"

Roedd diffyg mynediad at ddyfais hefyd yn codi materion eraill. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu bod plant a phobl ifanc yn colli mwy o dir yn eu haddysg; yn colli diddordeb yn fwy; ac yn cael eu hynysu fwyfwy oddi wrth eu cyfoedion. Roedd pryderon hefyd ynghylch oedolion yn y teulu oedd yn cael mynediad at wasanaethau cymorth wyneb yn wyneb cyn y cyfyngiadau, ond a oedd yn methu gwneud hynny bellach. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni cymorth meddyliol ac emosiynol a rhaglenni adfer wedi camdriniaeth ddomestig.

"Fel ysgol fe wnaethon ni ddarparu dyfeisiau a wifi i 20% o'n disgyblion. O dan amgylchiadau arferol mae llawer o ddisgyblion heb fynediad at ddyfeisiau digidol, sy'n golygu bod system ddwy haen i ddisgyblion ysgol"

Bu'r arolwg hefyd yn archwilio mynediad at ddata. Codwyd fforddiadwyedd ac argaeledd data gan ymatebwyr yn ein hadroddiad COVID-19 a'i effaith ar deuluoedd incwm isel a difreintiedig (Awst 2020). Canfu'r adroddiad hwn fod diffyg data yn broblem i bron 70% o'r teuluoedd roedd yr ymatebwyr yn gweithio gyda nhw, ac yn arbennig felly y gallu i fforddio data. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau bod plant a phobl ifanc, er eu bod yn derbyn dyfeisiau, yn methu eu defnyddio heb ddata.

Ar sail y canfyddiadau hynny, gofynnodd ein harolwg yn 2021 i'r ymatebwyr a oedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw yn gallu cyrchu data.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis o blith y categorïau uchod a rhoi tic wrth bob maes oedd yn berthnasol i fwyafrif o'u teuluoedd. Roedd categori arall yn cynnwys cyrchu data trwy hybiau cymunedol, er nad oedd hynny bob amser yn bosibl oherwydd cyfyngiadau COVID.

Adroddodd ymatebwyr mai fforddiadwyedd data yw'r broblem fwyaf o hyd i'r rhan fwyaf o'u teuluoedd. Mae gan lawer mwy o blant a phobl ifanc fynediad at ddyfais bellach, ond mae rhieni'n cael trafferth fforddio'r swm o ddata sy'n angenrheidiol. O dan y cynlluniau benthyca, derbyniodd rhai plant ddongl neu mifi, ond nid oedd hynny o reidrwydd yn cael ei gynnwys ym mhob cynllun. Hysbyswyd rhai rhieni y



gallen nhw wneud cais am ddata ychwanegol, dongl neu mifi trwy nifer o gynlluniau awdurdod lleol neu drydydd sector, ond roedd rhaid i hynny ddigwydd ar-lein. O ystyried y problemau fforddiadwyedd, nid oedd pob rhiant mewn sefyllfa i wneud hynny. Mewn adrannau blaenorol o'r canfyddiadau hyn, gwnaeth ymatebwyr sylwadau am yr angen i brynu data fel un o'r ffactorau a ychwanegodd at ddyledion teuluoedd.

Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at wersi ar-lein yn achlysurol yn unig oherwydd bod angen i deuluoedd 'rannu'r data rhwng pawb'. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn cael trafferth cyflawni ymchwil ar-lein, oedd yn aml yn ofynnol ar gyfer gwersi a gwaith cartref.

"Roedd rhai rhieni heb ddigon o ddata i'r plant wneud eu gwaith"

Wrth i wasanaethau cefnogi symud ar-lein, effeithiodd hynny hefyd ar rieni a gofalwyr oedd yn methu fforddio'r data ychwanegol. Roedd hynny'n cynnwys gwasanaethau cefnogi rhianta, rhaglenni adferiad a gwasanaethau iechyd meddwl.

"Mae gallu mynychu grwpiau rhianta rhithwir yn gyfyngedig"

Roedd mynediad at ddyfeisiau a data yn hanfodol ar gyfer pobl ifanc oedd mewn addysg bellach, yn dilyn hyfforddiant neu'n chwilio am gyflogaeth. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth ariannol ar gyfer hyn yn aml yn gyfyngedig iawn neu heb fod ar gael iddyn nhw o gwbl.

"Roedd mynediad at gyrsiau ar-lein yn gyfyngedig oherwydd data neu wifi"

Dywedodd yr ymatebwyr fod rhai sefydliadau wedi symud gwybodaeth i'w tudalennau facebook. Roedd hyn yn fwy hygyrch i rieni oedd yn defnyddio ffonau clyfar neu ddyfeisiau eraill â sgrîn fach. Er bod y newid hwn wedi helpu rhai teuluoedd yn sylweddol, gwnaeth ymatebwyr y sylw o hyd bod "llenwi ffurflenni ar ffôn clyfar â data cyfyngedig ddim yn ddelfrydol".

Cafwyd hefyd lawer o sylwadau am gysylltedd yn achos y teuluoedd hynny oedd yn gallu cyrchu data. Cyfeiriwyd at broblemau mynediad gwael a bylchog, yn enwedig lle roedd nifer o ddyfeisiau'n cael eu defnyddio neu mewn ardaloedd gwledig.

Dywedodd un ymatebydd: "Dyw e ddim yn bosibl i'r holl blant a phobl ifanc a'u rhieni fod ar-lein yn gweithio yr un pryd".

At ei gilydd, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn dweud bod ysgolion, y trydydd sector, sefydliadau statudol ac eraill wedi gweithio'n galed o dan amgylchiadau anodd, newidiol, i ganfod teuluoedd a darparu dyfeisiau ar eu cyfer, a data lle roedd modd. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn parhau, a chan fod mwy o wasanaethau yn symud i fynediad ar-lein yn unig ac y bydd angen darpariaeth ar blant a phobl ifanc o hyd ar gyfer gwaith cartref, hyfforddiant a chyflogaeth, mae hon yn broblem sy'n parhau wedi Covid.

Addysg

Ar sail eu profiadau a'u harsylwadau, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw meddwl bod tlodi'n effeithio ar brofiad plant a phobl ifanc o'r ysgol a dysgu, a pha agwedd ar addysg oedd yn cael yr effaith ariannol fwyaf ar deuluoedd.



Y pynciau a roddwyd uchod yw'r meysydd y gwyddys eu bod yn cael effaith ariannol ar deuluoedd, ac a amlygwyd gan brosiect Pris Tlodi Disgyblion. Mae'r prosiect hwn yn adnodd ar gyfer darparwyr addysg ynghylch sut mae lleihau cost y diwrnod ysgol. Ariannir y prosiect gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei gyflwyno gan Plant yng Nghymru.

O ystyried sylwadau'r ymatebwyr ar hyd yr arolwg, nid yw'n syndod bod sôn am wisg ysgol, teithiau a phrydau ysgol ymhlith y meysydd sy'n achosi fwyaf o drafferth i deuluoedd yn ariannol.

Roedd bron yr holl ymatebwyr (94%) yn credu bod tlodi'n effeithio ar brofiad plant a phobl ifanc o'r ysgol a dysgu.

Roedd eu sylwadau'n ymwneud â 3 phrif faes gan mwyaf

- Bwlio
- Llesiant emosiynol gwael
- Newyn

Nododd ymatebwyr fod plant a phobl ifanc yn cael eu bwlio'n rheolaidd oherwydd eu bod yn byw mewn tlodi. Cyfeiriodd ymatebwyr yn rheolaidd at fwlio a llesiant emosiynol gael gyda'i gilydd. Nodwyd bod plant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi yn cael eu bwlio'n bennaf am y rhesymau canlynol:

- Eu bod yn derbyn prydau ysgol am ddim
- Eu bod yn methu fforddio cymryd rhan mewn gweithgareddau (tripiau ysgol, clybiau, digwyddiadau cyfrannu ac elusennol yn yr ysgol)
- Eu bod heb wisg ysgol gywir neu bod eu gwisg ysgol yn ffitio'n wael neu "mewn cyflwr gwael"
- Eu bod nhw heb ffôn symudol neu ddyfais
- Eu bod nhw ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ysgol (sinema, "treulio amser gydag eraill", partïon pen-blwydd, proms etc.)

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfateb i'r rhai yn yr arolwg plant a phobl ifanc lle nododd 73% ohonynt fod cael eu bwlio ac eraill yn edrych i lawr arnyn nhw yn broblem i blant oedd yn byw mewn tlodi.

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau fod llawer o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn profi **diffyg hunan-barch**, bod ganddyn nhw ddisgwyliadau bywyd i, eu bod yn poeni, yn pryderu ac yn teimlo straen yn fwy na phlant eraill, eu bod yn teimlo'n

llai abl i gyflawni, eu bod yn aml wedi'u hynysu oddi wrth eu cyfoedion ac yn fwy tebygol o golli diddordeb yn holl brofiad yr ysgol.

"Mae tlodi'n effeithio ar bob agwedd ar addysg, o berthyn a llesiant, i gyfranogiad a chyrhaeddiad. Hyd yn oed os yw plant yn derbyn gofal da gan eu rhieni, mae tlodi'n eu dal yn ôl oherwydd eu bod nhw'n methu ymuno fel plant mwy cefnog, ac yn gorfod hepgor llawer o'r pethau disgwyliedig y dylai plentyndod modern eu cynnwys"

"Mae plant yn ymwybodol iawn os ydyn nhw wedi cael gwisg ysgol rhywun arall. Mae rhai plant yn cael byrbryd, mae eraill yn methu fforddio 20c y dydd am afal. Mae tripiau ysgol yn ddrud dros ben ac mae'n well gan rai rhieni gadw eu plant gartre oherwydd eu bod nhw'n methu fforddio'u hanfon nhw"

Cyfeiriodd bron yr holl ymatebwyr at **annhegwch** a'r diffyg cyfleoedd, dewisiadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi, neu ar gyrion hynny. Roedd hyn yn cynnwys diffyg cyfle i fynd ar dripiau ysgol a rhannu profiad â'u cyfoedion. Cyfeiriwyd hefyd at y diffyg cyfleoedd i fynychu ysgolion Cymraeg. I nifer o deuluoedd, roedd ysgolion Cymraeg yn aml cryn bellter i ffwrdd, ac roedd costau trafnidiaeth naill ai'n anodd neu'n ormodol.

"Mae tlodi'n effeithio ar addysg. Allan nhw ddim fforddio gwisg ysgol felly dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod yn ffitio i mewn gyda'u cyfoedion, sy'n golygu eu bod nhw ddim yn ymgysylltu. Os ydyn nhw'n llwglyd, maen nhw'n methu prosesu'r wybodaeth a dysgu. Os ydyn nhw'n methu fforddio teithio, maen nhw'n methu cyrraedd yr ysgol. Os ydyn nhw'n methu fforddio tripiau ysgol, maen nhw'n colli'r profiadau dysgu yna, ac eto'n teimlo ar wahân i'w cyfoedion. Mae'r cyfan yn syml iawn, a'r cyfan yn drist iawn"

Meysydd eraill y cyfeiriwyd atynt oedd plant **ddim yn dod i'r ysgol** ar 'ddiwrnodau gwisg anffurfiol' neu ar ddiwedd tymor, pan fyddai athrawon yn draddodiadol yn derbyn anrheg. Roedd goblygiadau ariannol yn sgîl y rhain i blant a'u teuluoedd, ac i arbed 'colli wyneb', byddai'n well ganddyn nhw beidio â dod i'r ysgol na gorfod esbonio'r rhesymau pam roedden nhw'n methu cymryd rhan. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn sôn am gyfatebiaeth rhwng hyn ac absenoldeb rheolaidd ar ddiwrnodau Ymarfer Corff oherwydd diffyg dillad addas neu gyfarpar.

Crynhodd un ymatebydd lawer o'r pwyntiau a wnaed yn yr adran hon:

"Mae llai o gyfleoedd ar gael iddyn nhw, oherwydd costau gweithgareddau neu gyfarpar. Os yw gofal plant yn broblem yn y teulu, gall fod disgwyl iddyn nhw helpu gyda hynny, sy'n golygu eu bod heb amser i fynd i weithgareddau. Y pethau materol sydd gan deuluoedd mwy cefnog, e.e. WiFi, dyfeisiau electronig, oergell yn llawn bwyd, dewis o fwyd, gwisg ysgol, cyfarpar ysgol a dillad hamdden/tu allan i'r ysgol ar gael yn rheolaidd, cyfarpar ar gyfer hobïau, megis cyfarpar chwaraeon, celf, dylunio, cerddoriaeth, arian i deithio ac ymweld â mannau diddorol, arian i fynd ar wyliau, mynediad at gar, neu drafnidiaeth.

Gall tlodi yn ei dro effeithio ar iechyd a llesiant teulu a ffactorau eraill, megis tai diogel, trafnidiaeth, etc sy'n gallu cael effaith bellach ar gyfleoedd addysgol person ifanc"

Nododd ymatebwyr hefyd fod **newyn** yn cael effaith ar allu plant i ddysgu, a chyfeiriwyd at newyn a maethiad gwael yn arwain at ddiffyg canolbwyntio a symbyliad, diffyg ffocws ac ymddygiad gwael. I lawer, roedd y plant hynny oedd ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o deimlo'n llwglyd.

Teimlai nifer o ymatebwyr hefyd fod bwlio, profiadau dysgu gwael a ffactorau sy'n lleihau lefelau cyrhaeddiad yn aml yn arwain at **gylch o dlodi ar draws y cenedlaethau.** Roedd eu profiadau'n dangos bod rhieni plant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi wedi cael profiadau negyddol tebyg eu hunain yn yr ysgol. Roedd hynny'n aml yn lleihau eu gallu i osod gwerth ar addysg, na meddu ar hyder i gefnogi eu plant trwy addysg. Credai'r ymatebwyr fod datgysylltiad y rhieni eu hunain o fyd addysg yn fwy tebygol o arwain at ddatgysylltiad eu plant.

"Mae ein darpariaeth gofal plant leol wedi nodi bod plant sy'n ymddwyn yn wael yn llwglyd. O'u bwydo, mae eu hymddygiad, ac o ganlyniad eu cyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu, yn gwella"

Y blynyddoedd cynnar: Crynodeb o ymatebion sector benodol

Cynhwyswyd canfyddiadau ymatebwyr sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar ar hyd yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, isod ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â'r sector hwn. Mae'r 'blynyddoedd cynnar' yn adeg hollbwysig i blant. Mae plant yn tyfu'n gyflym ac mae'r amgylchedd lle cânt eu hunain yn effeithio ar eu datblygiad corfforol a meddyliol. Mae tair blynedd cyntaf bywyd yn arbennig o bwysig ar gyfer datblygiad iach oherwydd bod twf niwrolegol yn digwydd mor gyflym yn ystod y cyfnod hwn. Mae digonedd o waith ymchwil sy'n dangos bod buddsoddi ym mlynyddoedd cyntaf bywyd plentyn yn gwella'u canlyniadau ar hyd eu hoes.

Er mwyn deall y blynyddoedd cynnar a datblygiad unrhyw blentyn penodol, mae angen ystyried tair agwedd; y plentyn fel unigolyn, eu hamgylchedd, a'r diwylliant sosio-economaidd sy'n amgylchynu'r plentyn a'r teulu (Siraj-Blatchford et al, 2012).

Mae pob plentyn yn unigryw, a bydd eu hanghenion yn adlewyrchu hynny; fodd bynnag, mae ansawdd yr amgylchedd(au) a'r diwylliant sosio-economaidd mae plant yn rhan ohonynt yn effeithio'n fawr ar eu profiadau cynnar.

Mae'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio gyda phlant 0-5 oed a'u teuluoedd wedi amlygu eu pryderon a'u safbwyntiau, a grynhoir yma.

Roedd y 5 prif fater cysylltiedig â thlodi y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys:

- Effaith budd-daliadau
- Cyflogau isel
- Dyled
- Cost ac argaeledd gofal plant
- Rhwystrau tai a chostau byw cynyddol

Mae'n eglur bod pob rhan o fywyd wedi bod o dan straen oherwydd y pandemig, a bod hynny wedi chwyddo problemau. Dywedodd 76% o ymarferwyr fod mwy o deuluoedd yn cael eu gwthio i dlodi gan argyfwng y Coronafeirws; oherwydd cyflogau isel; lleihau oriau, contractau oriau sero ochr yn ochr â chostau byw uwch. Mae pob teulu wedi cael trafferth ymdopi.

Mae galwad glir am ofal plant mwy fforddiadwy; gyda ffocws arbennig ar ehangu'r cynnig gofal plant i blant iau.

"Mae'r teuluoedd hynny a fu'n ymdopi o drwch blewyn yn awr mewn trafferthion mawr"

"Rhoi pob plentyn ar yr un gwastad"

"Ddylai dim un plentyn fod yn llwglyd"

Mae 82% o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant o dan 5 oed yn cytuno y dylai prydau ysgol am ddim fod ar gael i bob plentyn.

Pan holwyd a yw tlodi'n effeithio ar ddysgu a datblygiad plant, dywedodd 94% ei fod, gan amlygu'r effaith aruthrol y gall newyn ei chael ar holl feysydd dysgu a datblygiad. Mae ein plant ifancaf yn datblygu ar garlam, ac mae blynyddoedd cyntaf eu bywyd yn hanfodol i'w datblygiad hirdymor ac yn gosod patrwm ar gyfer arferion oes. Os ydym am wneud gwahaniaeth mae angen i ni gychwyn gyda'n plant ifancaf a rhoi'r 'dechrau gorau mewn bywyd' iddyn nhw.

Dylai pob plentyn a theulu gael mynediad at adnoddau hanfodol i gefnogi eu dysgu a'u datblygu, ac mae angen hynny arnynt; gan gynnwys dewisiadau a chyfleoedd teg.

"Mae plant yn sylwi ar anghydraddoldeb yn gynnar ac mae'n effeithio ar eu hyder a'u hunan-barch"

Mae amgylchedd y cartref mor bwysig, ac yn fwy fyth felly yn achos ein plant ifancaf. Dyna lle dylen nhw ganfod diogelwch; cariad, bwyd a diwallu eu hanghenion sylfaenol (hierarchaeth anghenion Maslow).

Mae ymarferwyr yn galw am 'help i bob teulu'; sicrhau bod gan bob teulu ddigon o arian i fyw, p'un a ydyn nhw mewn cyflogaeth neu beidio.

'Cefnogaeth i'r teulu cyfan'; mae angen cefnogi rhieni yn eu rôl a'u helpu i ddarparu anghenion sylfaenol eu plentyn/plant.

"...mae'n anodd iawn canolbwyntio ar fagu plant a rhoi sylw llawn i'ch plant pan fydd y pethau yma'n hongian uwch eich pen ac rydych chi'n methu gweld ffordd allan... Wedyn mae hynny'n effeithio ar iechyd meddwl a'r cysylltiad rhwng teuluoedd"

Mae methiant i gynnal anghenion y plant ifancaf nid yn unig yn fethiant o'u safbwynt nhw ond hefyd yn caniatáu i broblemau ddatblygu a chrynhoi.

Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r canfyddiadau:

- Gofal plant mwy fforddiadwy; gyda ffocws arbennig ar ehangu'r cynnig gofal plant yn wyneb y cynnydd o ran tlodi mewn gwaith.
- Ehangu prydau ysgol am ddim i bob plentyn o dan 5 oed.
- Help i bob teulu; cynnig dewis a chyfleoedd.
- Cydnabyddiaeth bod y blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan hanfodol mewn canlyniadau iechyd a datblygiad gydol oes.

Taclo tlodi a'i effaith – Barn ymatebwyr

Roedd y cwestiwn olaf i gyfranogwyr yn gofyn iddyn nhw nodi un peth bydden nhw'n ei newid petaen nhw'n arwain Llywodraeth Cymru. Atebwyd y cwestiwn hwn gan dros 78% o'r rhai a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg. Ceir crynodebau o'u hatebion isod. Mae 6 phwynt bwled cyntaf yn dangos y newidiadau/sylwadau y cyfeiriwyd atynt amlaf gan yr ymatebwyr.

- **Prydau ysgol am ddim** i bawb, gan gynnwys AB ac AU. Byddai hyn yn helpu i leihau stigma tlodi ac yn ysgafnhau'r pwysau ar sefyllfa ariannol teuluoedd. Treialu prydau ysgol am ddim mewn 1 ardal awdurdod lleol ac adolygu'r effaith. Cynyddu'r lwfans prydau ysgol am ddim presennol a chodi'r trothwy cymhwysedd.

- **Prydau ysgol am ddim** yn ystod pob gwyliau ar gyfer y rhai sy'n gymwys (ddim i bawb yn ystod y gwyliau).

- **Gwisg ysgol am ddim** i'r rhai sydd ar fudd-daliadau. Codi'r trothwy cymhwysedd i sicrhau bod teuluoedd incwm isel sy'n gweithio yn gallu cael mynediad iddo.

- **Cynyddu budd-daliadau** i sicrhau eu bod yn ddigon ar gyfer anghenion sylfaenol teuluoedd. Dylai'r system fudd-daliadau adolygu sefyllfa'r unigolyn yn awtomatig i sicrhau bod hawlwyr yn derbyn popeth sydd ar gael iddyn nhw.

- **Credyd cynhwysol.** Gwneud y cynnydd yn barhaol. Datganoli'r system fudd-daliadau i atal llywodraethau rhag beio'i gilydd a newid dim. Rhoi stop ar yr amser aros o 5 wythnos.

- **Codi'r isafswm cyflog**. Nid yw codi cyflog byw yn ddigon, gan nad oes gofyn bod cyflogwyr yn cydymffurfio â hynny. Dylai pob cyflog fod yn ddigon i sicrhau bod anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu.

"Creu strategaeth tlodi plant â thargedau rhwymol a gwneud hynny'n flaenoriaeth polisi rhif un"

- Dod â **chontractau oriau sero** i ben neu ddarparu cefnogaeth ariannol fwy hyblyg i rieni ar oriau sero.

- Dylai **mynediad at ddyfeisiau** a data fod ar gael am ddim i bob plentyn a pherson ifanc sy'n byw mewn tlodi, gan sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill. Dylai hyn gynnwys AB ac AU.

- **Gofal plant** rhatach, o safon uchel. Gofal plant am ddim i bob oed i gefnogi rhieni ar CC i gael gwell cyflogaeth neu addysg. Mae angen i ofal plant fod yn fwy hygyrch, gydag oriau mwy hyblyg. Byddai hynny'n annog gweithio'n fwy hyblyg ac yn cefnogi patrymau shifftiau.

- **Clybiau brecwast ac ar ôl ysgol am ddim** i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, gydag oriau sy'n estyn i mewn i'r hwyr i ganiatáu ar gyfer ystod o batrymau shifftiau.

- Dylai **gweithgareddau allgyrsiol** fod yn ddi-dâl. Mae'r rhain yn cynyddu hyder a hunan-barch.

"Sicrhau bod dyfeisiau digidol sy'n cynnwys data/wifi am ddim ar gael i bob disgybl. Darparu mannau tawel, diogel i weithio a mentoriaid ar-lein, y tu allan i oriau ysgol, i gefnogi'r disgyblion yn eu dysgu"

- **Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim** i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, fel eu bod yn gallu fforddio teithio i'r gwaith.

- Darparu mwy o **dai cymdeithasol** sy'n fforddiadwy i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi a sicrhau bod eiddo LCC yn addas at y diben.

- Mynd i'r afael â **stigma tlodi.**

- **Dileu fframweithiau prawf modd sydd wedi dyddio**. Nid yw'r rhain yn effeithiol bellach ac mae llawer o deuluoedd yn cael eu colli.

- **Dileu treth y cyngor.**

- **Darparu cyfleoedd hyfforddi** i bawb, nid dim ond y rhai sy'n ddi-waith.

"Cyflwyno ymgyrch hysbysebu gyson i addysgu pobl am effaith tlodi. Mae'n drist iawn dweud, ond gwaetha'r modd, mae yna bobl yn ein cymdeithas sydd ddim yn sylweddoli'r frwydr a'r ymdrech barhaus mae teuluoedd mewn tlodi yn eu hwynebu o ddydd i ddydd""

- Sicrhau **cydraddoldeb** i'r rhai sy'n byw mewn tlodi

- Darparu **cymorth i reoli dyledion** yn ddi-dâl, yn brydlon ac yn hygyrch

- **Ehangu gwaith chwarae mynediad agored**. Mae angen ymrwymiad radical a hirdymor i hyn yn holl gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae hynny'n lleihau'r difrod dychrynllyd a wneir i blant ar hyd eu hoes yn sgîl tlodi diderfyn

- Sicrhau **cyllid ar gyfer prosiectau a chanolfannau cymunedol.** Mae angen iddyn nhw barhau i gefnogi teuluoedd a chymunedau.

- **Mwy o gefnogaeth i'r trydydd sector**. Nhw sy'n casglu'r darnau aeth ar chwâl.

"Peidiwch â bod yn wleidyddol, mae tlodi'n fwy na hynny"

"Nid un peth sydd dan sylw – mae angen sicrhau newid sylfaenol mewn agweddau ac mae angen i'r gymdeithas newid ar yr un pryd"

Canfyddiadau'r arolwg plant a phobl ifanc

Am yr arolwg

Trwy'r arolwg hwn, roedden ni am sicrhau gwell dealltwriaeth o ba faterion cysylltiedig â thlodi sy'n bwysig i blant a phobl ifanc ac effaith bosibl y materion hynny ar eu bywydau. Mae'n bwysig nodi nad oedd lledaenu'r arolwg yn targedu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a/neu ardaloedd difreintiedig yn benodol. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo a'i ledaenu'n eang ar draws Cymru, trwy aelodaeth Plant yng Nghymru, rhwydweithiau, bwletinau, Cymru Ifanc a thrwy rwydweithiau ein cydweithwyr allanol.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar yr un pryd â'r arolwg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, ac roedd ar gael i'w gwblhau dros gyfnod o 5 wythnos o 26 Ebrill – 30 Mai 2021. Cwblhawyd yr arolwg yn ddienw gan ymatebwyr ac roedd ar gael i bob oed.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc ystyried materion cysylltiedig â thlodi yn y meysydd canlynol:

- Arian
- Ysgol
- Cartref
- Cymuned
- Tlodi yng nghyd-destun COVID

Roedd pob un o'r categorïau uchod yn darparu opsiynau amlddewis, yn ogystal â chyfle i wneud sylwadau penagored ynghylch sut byddai pob un o'r materion yn effeithio ar blant oedd yn byw mewn tlodi.

Gofynnwyd pob cwestiwn yn y trydydd person ac roedd yr arolwg yn rhoi esboniadau syml, gofalus i'r plant a'r bobl ifanc ar derminoleg benodol, er enghraifft beth roedd y termau 'tlodi' a 'dyled' yn ei olygu. Roedd y termau hyn, er eu bod yn cael eu hesbonio mewn modd syml, yn darparu esboniadau y gallai pob un o'r grwpiau oed oedd yn cyfranogi eu deall.

Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc ddarparu enghreifftiau o arfer cadarnhaol oedd yn eu barn nhw wedi helpu i daclo tlodi yn eu hardal nhw. Roedd ein cwestiwn olaf i'r plant a'r bobl ifanc yn gofyn, petaen nhw'n Brif Weinidog ar Gymru, beth fydden nhw'n ei wneud i atal tlodi rhag digwydd.

Pwy ymatebodd

Doedd yr arolwg ddim yn gofyn i'r plant a'r bobl ifanc oedden nhw eu hunain yn byw mewn tlodi. Yn hytrach, roedd yr arolwg yn ceisio'u barn ar sut gallai tlodi effeithio ar wahanol agweddau o fywydau plant. Fodd bynnag, o ystyried rhai o'r ymatebion ar hyd yr arolwg, mae'n amlwg bod o leiaf 34% o'r rheiny a ymatebodd yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd, neu'n agos iawn at hynny.

Ymatebodd cyfanswm o 82 o blant a phobl ifanc o 13 o ardaloedd Awdurdod Lleol ledled Cymru. Yr ardaloedd hynny lle cafwyd y nifer uchaf o ymatebion oedd Powys, Sir Fynwy a Chasnewydd. Roedd eu hoedrannau'n amrywio o rai o dan 10 oed hyd at 25 oed.

O'r ymatebwyr, roedd 87% yn disgrifio'u hunain fel rhai heb anabledd, roedd 9% yn dewi peidio â dweud, ac roedd 4% yn datgan bod anabledd ganddyn nhw. Holwyd y plant a'r bobl ifanc hefyd am eu hethnigrwydd, ac mae'r canfyddiadau hynny i'w gweld yn y siart isod.

O ystyried canrannau bach y rhai oedd yn nodi eu bod yn anabl, yn ddu, yn Asiaidd neu'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol, nid oes modd dadansoddi'n bendant a oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng eu hatebion hwy a rhai ymatebwyr eraill.





Canfyddiadau

Cyflwyniad

At ei gilydd, fel yn achos yr arolwg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, mae canfyddiadau'r arolwg plant a phobl ifanc yn ddigysur. Maen nhw'n dangos darlun o lawer o blant yn cael trafferth ymdopi gartref, yn yr ysgol ac yn eu cymunedau. Roedd straen, pryder, tristwch, gorbryder ac iselder yn eiriau a ddefnyddiwyd yn rheolaidd gan blant a phobl ifanc ar hyd yr arolwg cyfan.

Nodwyd bwlio cysylltiedig â thlodi yn yr ysgol fel problem benodol gan 73% o'r ymatebwyr, a gwnaeth 85% sylwadau amdano. Soniodd plant a phobl ifanc hefyd am ddyled, effaith bod heb arian, bod yn ynysig yn gymdeithasol a bod yn llwglyd. Ar hyd yr arolwg, daeth 3 thema i'r amlwg.

- Iechyd emosiynol gwael llawer o blant sy'n byw mewn tlodi
- Bwlio cysylltiedig â thlodi
- Arian a dyled.

Mae'r materion a nodwyd gan y plant a'r bobl ifanc ac y buon nhw'n sôn amdanynt yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd gan ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn eu harolwg hwythau.

Mae'r canfyddiadau isod yn cynnwys llawer o sylwadau sy'n ddyfyniadau gan y plant a'r bobl ifanc. Er bod darllen llawer o'r rhain yn anghysurus, rydyn ni wedi penderfynu eu cynnwys yn yr adroddiad. Nid ein bwriad yw creu sioc neu gyffro afiach, ond yn hytrach ddarparu gwell dealltwriaeth o effeithiau tlodi ar lawer o'r miloedd o blant a phobl ifanc sy'n wir yn byw fel hyn bob dydd.

Tlodi ac arian

Yn yr adran gyntaf hon, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc beth roedden nhw'n meddwl oedd yn effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis 2 fater o'r rhestr a ddarparwyd. Roedd y rhestr wedi'i seilio ar faterion oedd wedi'u codi gan blant a phobl ifanc mewn arolygon a gweithdai blaenorol, ac o ganlyniad, mae modd ei chymharu â'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2019.



Yn y cwestiwn yma, disgrifiwyd tlodi a dyled fel a ganlyn:

Tlodi: Mae hyn yn golygu bod heb ddigon o arian i brynu pethau sy'n angenrheidiol bob dydd, fel bwyd neu ddillad.

Dyled: Mae hyn yn golygu bod ar rywun arian i rywun arall, ond bod ganddyn nhw ddim digon o arian i dalu'n ôl.

Yna gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr "ddweud wrthyn ni sut rydych chi'n meddwl bod tlodi ac arian yn effeithio ar blant a phobl ifanc".

Atebodd plant a phobl ifanc y cwestiwn yma naill ai o'u profiad yn sylwi ar dlodi neu o'u profiadau uniongyrchol eu hunain. Cafwyd llawer o sylwadau am ddyled yn arbennig, ond hefyd ddiffyg bwyd, newyn a methu "cymryd rhan". Gwnaeth ambell ymatebydd sylw am anallu i fynd i'r ysgol oherwydd bod dim digon o arian i fforddio trafnidiaeth, esgidiau ysgol neu wisg ysgol. Soniodd un ymatebydd hefyd am ddiffyg arian i brynu cynnyrch hylendid i ferched.

Fodd bynnag, roedd y sylwadau'n canolbwyntio'n

bennaf ar fwlio a iechyd emosiynol gwael, ac roedd y plant a'r bobl ifanc yn rheolaidd yn defnyddio geiriau fel straen, pryder, gorbryder ac iselder.

"Bwlio, bod yn llwglyd, dillad brwnt ac edrych yn wahanol i'ch ffrindiau. Dim teganau"

(O dan 10 oed)

"Maen nhw'n cael eu bwlio gan bobl oherwydd bod eu pethau ddim cystal"

(14-16 oed)

"Maen nhw'n teimlo fel ci mewn caets, heb fodd i ddianc"

(O dan 10 oed)

Tlodi a'r ysgol

Fel yn achos y cwestiwn blaenorol, gofynnwyd i blant a phobl ifanc ddewis 2 fater o'r rhestr o opsiynau isod.



Dewisodd 73% o'r ymatebwyr 'Cael eu bwlio neu bobl yn edrych lawr arnyn nhw'; ond pan ofynnwyd sut mae tlodi'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn yr ysgol, soniodd 85% am fwlio cysylltiedig â thlodi yn eu sylwadau. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r materion a nodwyd yn r adran flaenorol, tlodi ac arian.

Fel arfer cyfeiriwyd at fwlio ac effeithiau hynny ar iechyd emosiynol gyda'i gilydd. Eto, roedd llawer o'r sylwadau yn trafod teimladau o fod yn ynysig, cael eu heithrio, a "chael eu gadael allan" yn amgylchedd yr ysgol.

"Mae bwlio'n cael effaith wael arnyn nhw, neu efallai bod nhw'n teimlo fel y person gwaethaf ar wyneb y ddaear"

(O dan 10 oed)

"Rwy'n credu bod tlodi'n effeithio ar bobl ifanc yn yr ysgol oherwydd gallen nhw gael eu bwlio oherwydd gwisg ysgol ail-law neu ginio bach"

(10-13 oed)

"Rwyt ti'n teimlo'n israddol"

(14-16 oed)

Wrth gyfeirio at **fwlio**, gwnaeth ymatebwyr sylwadau'n aml bod plant yn cael eu bwlio yn yr ysgol pan fydden nhw:

- Yn methu fforddio mynd ar dripiau ysgol
- Heb y wisg ysgol gywir
- Heb yr offer cywir
- Yn methu fforddio cymryd rhan mewn gweithgareddau

Yn yr arolwg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, cyfeiriwyd yn aml at stigma derbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, dim ond 11% o'r plant a'r bobl ifanc ddewisodd hyn fel problem, a dim ond 3% oedd yn cysylltu bwlio â phrydau ysgol am ddim. Mae'n anodd cymharu'r canfyddiad yma gan nad oedd yr arolwg yn ceisio darganfod faint o'r ymatebwyr oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim, ac felly ni allwn wneud sylwadau am unrhyw dueddiadau posibl cysylltiedig.

Ar sail y sylwadau a wnaed, roedd yn amlwg bod tlodi'n effeithio ar y rhai oedd ddim yn byw mewn tlodi hefyd. Soniwyd am weld eraill yn cael eu bwlio; gweld plant eraill yn llwglyd; yn cael eu heithrio gan eu cyfoedion a'u trin yn annheg. Soniodd rhai mor greulon oedd hyn a pha mor drist a diymadferth roedden nhw'n teimlo weithiau.

"Mae'n drist iawn, mae angen i fi helpu nhw. Rydw i eisiau gallu defnyddio beth sydd gen i, neu mae rhaid i'r ysgol helpu nhw

(14-16 oed)

"Mae'n dy wneud di'n wahanol ac mae rhaid i ti ffugio bod ti wedi gwneud pethau er bod ti ddim, heb i bobl eraill wybod bod ti'n defnyddio dychmyg, er mwyn peidio cael dy fwlio"

(O dan 10)

Er bod llawer o ymatebwyr yn aml yn sôn am amddifadedd materol, roedd ffocws arbennig ar effaith tlodi ar iehyd emosiynol y rhai oedd yn byw o dan yr amgylchiadau hynny.

Cyfeiriodd tua 60% o'r ymatebwyr yn benodol at **iechyd emosiynol gwael**. Dyma rai yn unig o'r geiriau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio sut gallai plant sy'n byw mewn tlodi deimlo mewn amgylchedd ysgol.

Tlodi a'r cartref

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr ystyried beth roedden nhw'n meddwl fyddai'n effeithio fwyaf ar blant oedd yn byw mewn tlodi, pan fydden nhw gartref. Eto, cadwyd yr un fformat i'r cwestiwn ag yn achos pynciau blaenorol.



At ei gilydd, gwelwyd amgylchedd y cartref a'r angen am sefydlogrwydd yn eu cartref fel materion a allai effeithio ar blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi. Roedd y sylwadau'n syrthio i 2 gategori yn gyffredinol; amgylchedd ffisegol y cartref; ac, fel yn achos atebion blaenorol, llesiant emosiynol.

O ran yr **amgylchedd ffisegol**, cyfeiriodd yr ymatebwyr yn bennaf at ddiffyg bwyd a gwres; ystafelloedd llaith ac oer; dim carpedi a fawr ddim celfi. Soniodd ymatebwyr hefyd am ddyled ac anallu i dalu biliau, gan gynnwys rhent, a allai olygu bod plant a phobl ifanc "yn gorfod gadael eu cartref".

"Tŷ sy'n ddamp a dim gwely"

(10-13yrs)

"Byw mewn ofn y gallai fod rhaid symud"

(10-13 oed)

Trafododd dros hanner yr ymatebwyr **iechyd emosiynol** gwael yn amgylchedd y cartref. Yn hytrach na bod yn lloches i blant a phobl ifanc, roedd yn debygol o fod yn rhywle lle "roedden nhw'n methu ymlacio", yn "pryderu'n barhaus am arian", ac yn teimlo gormod o embaras i wahodd ffrindiau draw, ac felly'n teimlo'n ynysig.

"Maen nhw'n gweld ei effaith ar eu rhieni ac mae'r straen yn trosglwyddo iddyn nhw. Ofnadwy iddyn nhw"

(10-13 oed)

"Gwneud iddyn nhw deimlo tristwch, embaras a'u bod wedi'u cau allan"

(10-13 oed)

Er bod yr arolwg yn gofyn cwestiynau yn y trydydd person, ar sail eu hatebion, rydyn ni'n casglu bod o leiaf 34% o'r ymatebwyr yn byw mewn tlodi. Dyma rai o'u sylwadau, sy'n rhoi cipolwg ar sut mae tlodi'n effeithio arnyn nhw yn amgylchedd eu cartref.

"Mae gennym ni lai o arian nag erioed o'r blaen. Mae Mam yn poeni am arian drwy'r amser, yn enwedig y dyn dyledion yn galw. Mae hi'n edrych yn ofnus iawn ac yn llefain wedyn."

(14-16 oed)

"Bod yn unig ac yn isel"

(10-13 oed)

"Mae rhieni dan straen ac wedi ypsetio ac mae'n golygu bod pawb yn y tŷ yn drist"

(O dan 10)

"Not feeling comfortable and safe in your home even though it's an escape from life, it's more distressing"

(14-16yrs)

"Pryder parhaus am beth fydd yn digwydd nesa"

(14-16 oed)

"Gorfod cau'r stafell wely fach oherwydd treth y cyngor, felly ddim lle i fi fy hun"

(O dan 10)

"Mae bywyd yn galed iawn"

(19-25 oed)

Tlodi yn y gymuned

Fel yn achos y cwestiynau eraill, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 2 o'r opsiynau iod. Fel mae'r siart yn dangos, dywedodd 73% o'r plant a'r bobl ifanc mai byw yn rhywle lle dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddiogel i fynd allan fyddai'n fwyaf tebygol o effeithio ar y rhai sy'n byw mewn tlodi. Efallai nad yw hyn yn peri syndod, gan fod amgylchedd y cartref wedi'i nodi fel mater pwysig yn yr adran flaenorol, a gellid gweld y gymuned fel estyniad i hynny.



Ar hyd yr arolwg, mae **bwlio cysylltiedig â thlodi** wedi bod yn thema amlwg, ac yma eto mae'n cael ei godi gan lawer o'r ymatebwyr. Pan ofynnwyd sut roedden nhw'n teimlo bod tlodi'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn eu cymuned, soniodd bron hanner yr ymatebwyr am fwlio cysylltiedig â thlodi, oedd yn golygu bod plant a phobl ifanc yn teimlo 'yn anniogel', 'yn fregus', 'yn nerfus' neu 'yn ofnus'. Fe nodon nhw na fyddai plant a phobl ifanc yn ddiogel i fynd allan neu chwarae na hyd yn oed i 'dreulio amser' yn eu cymuned.

"Mae pobl yn mynd i fwlio ti"

10-13 oed)

"Mae peidio â bod yn ffasiynol neu ddilyn y dorf yn achosi bwlio a phobl yn pigo arnat ti"

(19-25 oed)

"Nerfus am bobl normal"

(10-13 oed)

Soniodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo **embaras a chywilydd** oherwydd ble roedden nhw'n byw a'r dillad a'r esgidiau roedden nhw'n eu gwisgo. Roedd nifer o sylwadau hefyd am agweddau yn eu cymunedau ac am 'gael eu barnu' a 'phobl yn edrych lawr arnyn nhw' oherwydd eu bod nhw'n dlawd, a byddai hynny hefyd yn creu teimladau o fod yn agored i niwed ac yn ynysig.

"Mae pawb yn fy nghymuned i yn dlawd. Yn y dre, rwy'n teimlo bod pawb yn edrych lawr arnon ni"

(14-16 oed)

"Falle bydd pobl yn edrych lawr arnyn nhw fel tasen nhw'n od"

(10-13 oed)

"Falle bydd pobl yn y gymuned yn edrych lawr ar blant oherwydd bod nhw'n fwy tlawd nag eraill"

(10-13 oed)

Cyfeiriwyd at **ynysu cymdeithasol** a 'ffitio mewn' hefyd fel mater oedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn y gymuned. Credai hanner yr ymatebwyr fod diffyg arian yn cael effaith unionygrchol ar y gallu i gymdeithasu. Gwnaethon nhw sylwadau

y byddai plant a phobl ifanc yn methu fforddio costau teithio er mwyn cwrdd â'u ffrindiau, neu dalu am weithgareddau cymdeithasol neu'r cyfarpar angenrheidiol, fel teithiau i'r sinema neu esgidiau pêl-droed.

"Maen nhw'n methu ymuno mewn pethau na mynd i glybiau a gwneud ffrindiau achos bod ganddyn nhw ddim ffordd i gyrraedd yno"

(14-16 oed)

"Methu mynd allan gyda ffrindiau achos bod gen i ddim arian i gael bwyd na dim, ac os bydd arian, teimlo'n wael am ei wario"

(14-16 oed)

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau hefyd, hyd yn oed os nad oedd costau teithio a ffioedd mynediad yn berthnasol, y gallai dim ond cwrdd â ffrindiau fod yn broblematig. Roedden nhw'n nodi y byddai gan eu cyfoedion arian i'w wario ar fyrbryd neu ddiodydd, ac felly, achos eu bod nhw'n methu fforddio gwneud hynny a 'ffitio mewn', roedden nhw'n dewis peidio mynd.

"Mae jyst rhaid i fi fod yn greadigol gyda storïau pam rwy'n methu mynd i lefydd"

(O dan 10)

"Does dim tâl am fynd i'm clwb ieuenctid nawr, ond alla i ddim ymuno achos does gen i ddim arian gwario"

(14-16 oed)

COVID a thlodi

Ar adeg yr arolwg yma (Ebrill/Mai 2020), roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dod allan o gyfnod estynedig, bylchog ac ansicr o gyfyngiadau ac addysgu gartref. Er bod llawer yn cychwyn ar brofiad ysgol mwy 'normal', roedd llawer o rannau eraill o'r gymdeithas yn dal o dan gyfyngiadau, gan gynnwys ymweliadau ag aelodau o'r teulu estynedig a mynediad at lawer o weithgareddau hamdden. Gofynnodd yr arolwg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol hefyd gwestiynau am effaith COVID ar deuluoedd. Roedden ni am ganfod a oedd plant a phobl ifanc yn profi effaith debyg. Yn y cyd-destun hwn, felly, y gofynnodd yr arolwg a oedd COVID wedi gwneud y sefyllfa'n waeth i blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi, ac os felly, sut.



Gan fod 81% o'r ymatebwyr yn datgan bod COVID wedi gwneud pethau'n waeth i blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi, roedd yn anochel bod amrywiaeth o sylwadau. Y meysydd a drafodwyd amlaf oedd addysg; ynysu cymdeithasol; colli incwm a chyflogaeth yn y teulu; diffyg bwyd; a iechyd emosiynol.

Roedd y sylwadau ar **addysg** yn cynnwys diffyg dyfeisiau ar gyfer addysgu gartref, cysylltiad gwael â'r rhyngrwyd a fforddiadwyedd data (gan gynnwys y rhyngrwyd). Soniodd ymatebwyr am "gael trafferth" addysgu gartref oherwydd y materion hyn. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylw hefyd, oherwydd COVID, na allen nhw gael eu "lle tawel" yn yr ysgol. Yn gyffredinol, roedd plant a phobl ifanc yn gweld eisiau'r ysgol; o'u gwersi a'u fffrindiau i'r clybiau ar ôl ysgol.

"Gwneud gwersi dros y rhyngrwyd yn lle mynd i'r ysgol. Rydyn ni wedi colli llwyth o wersi, a cholli fy holl ffrindiau ysgol"

(10-13 oed)

"Falle'u bod nhw ddim eisiau galw eu ffrindiau oherwydd cywilydd ble maen nhw'n byw. Byddai hynny wedi achosi mwy o niwed o ran iechyd meddwl"

(14-16 oed)

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, Tlodi a Chymuned, codwyd **ynysu cymdeithasol** eto. Roedd ymatebwyr yn credu bod hyn yn cael mwy o effaith ar blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi. Fyddai "ganddyn nhw ddim rhyngrwyd, fwy na thebyg, na hyd yn oed ffôn", bydden nhw'n methu

cysylltu â'u ffrindiau a "hyd yn oed yn fwy ynysig gartre".

Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar fod yn ynysig oddi wrth y teulu estynedig, nid yn unig o ran agwedd emosiynol 'colli' nhw, ond hefyd o safbwynt ymarferol. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd: "Methu ymweld â'r teulu sy'n gwneud bwyd i ni ac yn helpu gyda'r golchi" (14-16 oed).

Fel yn achos canfyddiadau'r ymarferwyr a'r gweithwyr proffesiynol, cyfeiriodd llawer at **golli incwm a chyflogaeth** fel rhywbeth oedd yn effeithio ar y rhai oedd yn byw mewn tlodi. Roedd ymatebwyr yn ymwybodol bod "Mamau a Thadau yn colli swyddi". Roedden nhw'n sylweddoli bod busnesau'n cau, bod swyddi'n cael eu colli, ac i lawer o rieni, doedd gweithio o bell ddim bob amser yn bosibl. Fe nodon nhw y byddai hynny'n gwneud y sefyllfa'n waeth i blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn tlodi.

"Roedd rhieni'n colli eu harian, dim ond yn cael rhan ohono fe, felly roedden nhw'n poeni'n fawr achos bod nhw'n methu talu'r biliau. Maen nhw wedi gorfod talu am fwyd ychwanegol achos bod ni gartre trwy'r amser"

(O dan 10)

"Oherwydd COVID mae busnesau wedi rhyddhau gweithwyr, ac os oedden nhw eisoes ar yr isafswm cyflog, fyddai ganddyn nhw ddim digon o arian i ddal i fynd"

(14-16 oed)

"Fyddan nhw ddim yn gallu cael pryd am ddim yn yr ysgol"

(O dan 10)

Roedd **diffyg bwyd** yn cael ei gysylltu'n agos â lleihau incwm a chau ysgolion. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau yn aml bod colli swyddi'n golygu na fyddai gan deuluoedd oedd yn byw mewn tlodi ddigon o arian ar gyfer y bwyd ychwanegol oedd yn angenrheidiol yn ystod 'cyfnodau clo'. Dywedodd un ymatebydd fod y teulu'n defnyddio banc bwyd cyn COVID, ond na fu hynny'n bosib yn ystod y cyfyngiadau. Nid yw'r rheswm am hynny'n hysbys.

Gwnaed llu o sylwadau am **iechyd emosiynol** plant a phobl ifanc ar hyd ymatebion yr arolwg, gyda'r un materion a theimladau'n cael eu codi droeon ar draws pob pwnc. Mae hyn hefyd yn wir am yr ymatebion yn yr adran hon, gyda'r plant a'r bobl ifanc yn sôn am fod yn bryderus, yn poeni, ac yn teimlo'n ynysig ac yn unig. Mae'n werth nodi, er na nodir bwlio fel unig achos iechyd emosiynol gwael, mai bwlio sy'n cael y lle amlycaf yn y sylwadau am iechyd emosiynol yn yr adrannau eraill. Mae'r adran hon yn wahanol gan mai dyma'r unig ran o'r arolwg lle nad yw'r plant a'r bobl ifanc yn sôn am fwlio mewn unrhyw ymatebion.

"Mwy o amser gartre mewn sefyllfaoedd gwael"

(10-13 oed)

Rhai meddyliau terfynol gan blant a phobl ifanc

Towards the end of the survey, respondents were given the opportunity to say anything they wished about how poverty affects children and young people, 32% of respondents chose to do so. As they had throughout the survey, the children and young people provided frank and often stark comments. These are some of their comments:

"Mae plant mewn tlodi jyst eisiau bod yn gyfartal â phawb arall"
(O dan 10)

"Falle bod nhw'n teimlo bod nhw'n ddim, a bod nhw byth yn mynd i ddianc o'r bywyd yma, a dyw hynny DDIM YN IAWN. Mae angen i ni drin nhw â pharch a cheisio helpu, hyd yn oed os dim ond ychydig bach"
(10-13 oed)

"Nid tlodi ddylai wneud i bobl ddiffinio pobl ifanc"
(10-13 oed)

*"Mae'n s**t, dyw e byth yn dod i ben"*
(14-16 oed)

"Ddylai pobl ddim bod yn gas wrthyn nhw, dylen nhw fod yn garedig a'u helpu nhw mewn cyfnodau anodd"
(O dan 10)

Rhai meddyliau terfynol gan blant a phobl ifanc

"Children in poverty just want to be equal to everyone else"
(Under 10)

"Mae modd gwneud mwy i'w helpu achos mae yna bobl yn fy ysgol i sydd heb lawer, ac sydd wedi cael eu bwlio ar hyd y blynyddoedd"
(14-16 oed)

"Does gan lawer o wleidyddion a phobl mewn grym DDIM SYNIAD sut beth yw byw mewn tlodi ac maen nhw'n llawer rhy barod i farnu'r bobl dan sylw
(14-16 oed)

"Ddylai neb fod yn byw mewn tlodi"
(10-13 oed)

"Cael effaith aruthrol ar ein hiechyd meddwl. Mae'n gas gen i fod yn dlawd"
(O dan 10)

"Mae tlodi'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau"
(10-13 oed)

"Mae tlodi'n effeithio mewn llawer o ffyrdd, ac oni bai eich bod chi'n profi byw gydag ychydig iawn o arian, sut byddai'r rhai sy'n gyfrifol yn gwybod sut beth yw hynny, dydyn nhw ddim"
(10-13 oed)

"Stopiwch farnu'r rhai sy'n gwneud eu gorau i ymdopi gyda braidd dim arian dros ben. Rhowch brydau ysgol am ddim i bawb ohonon ni"
(10-13 oed)

Enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol

Fe wnaethon ni ofyn i blant a phobl ifanc ddarparu "enghreifftiau lle mae rhywbeth da wedi cael ei wneud i helpu i daclo tlodi yn eich ardal, hyd yn oed os yw e'n rhywbeth bach". Ymatebodd cyfran fawr, 64%, i'r cwestiwn yma.

Cyfeiriodd mwyafrif (62%) o'r plant a'r bobl ifanc at enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol oedd yn ymwneud â bwyd, ac yn fwyaf cyffredin, at fanciau bwyd. Roedden nhw'n falch o weld bod mwy o fanciau bwyd wedi agor, ac felly y byddai mwy o deuluoedd yn derbyn y bwyd roedd arnyn nhw ei angen. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn defnyddio banciau bwyd ac roedd eu sylwadau'n amlygu'r gwahaniaeth cadarnhaol roedd hynny wedi'i olygu iddyn nhw. Roedd enghreifftiau eraill lle roedd plant a phobl ifanc wedi cyfrannu bwyd eu hunain ac roedd y gweithredoedd hynny hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd emosiynol eu hunain.

"Banciau bwyd, fel arall bydden ni'n llwgu"

(O dan 10)

"Mae gennym ni fanciau bwyd gallwch chi ymweld â nhw i gael nwyddau sy'n helpu i'n stopio ni rhag llwgu"

(10-13 oed)

Cyfeiriwyd at brydau ysgol am ddim hefyd fel arfer cadarnhaol, yn ogystal ag adroddiadau am "Marcus Rashford" yn y cyfryngau. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod rhai ysgolion wedi dosbarthu prydau ysgol am ddim yn eu hardal, a dywedodd un ymatebydd fod eu gwasanaeth ieuenctid lleol hefyd yn dosbarthu prydau am ddim i bobl ifanc.

"Fe wnes i helpu trwy ofyn i'm cymdogion am duniau i mi eu rhoi i'r banc bwyd. Fe wnaeth rhai o'r cymdogion helpu llawer iawn, a wnaeth i mi deimlo'n hapus mod i'n helpu'r rhai mewn angen"

(19-25 oed)

Nid dim ond gwasanaethau statudol oedd yn darparu prydau am ddim. Roedd Venture, yn Wrecsam, yn darparu prydau am ddim, a dywedodd un ymatebydd "mae pawb yn eu cael nhw, felly dydych chi ddim yn teimlo pobl yn syllu arnoch chi achos bod chi'n dlawd".

Cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o weithredoedd cadarnhaol eraill, gan gynnwys; rhoi benthyg gliniaduron; apeliadau bocs sgidiau; cyfraniadau dillad elusennol; "rhent am ddim"; blychau crefft; pecynnau gweithgaredd, ac yn achos un ymatebydd, pecyn bwyd a rannwyd gan gymydog.

"Rhoddodd y cyngor fwyd i'm cymydog achos bod nhw'n hen, ond oherwydd bod Mam a Dad ddim yn cael budd-daliadau, allen ni ddim derbyn hynny. Fe wnaeth ein cymydog rannu gyda ni. Roedd hynny'n braf"

(14-16 oed)

Taswn i'n Brif Weinidog Cymru...

Fe wnaethon ni ofyn i blant a phobl ifanc: "Taset ti'n Brif Weinidog Cymru, beth fyddet ti'n ei wneud i atal tlodi rhag digwydd?" Atebodd mwy na 73% o'r ymatebwyr y cwestiwn yma.

Nid yw'n syndod bod eu hymatebion yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed ar hyd yr arolwg. Ymhlith y pynciau gafodd sylw roedd: tai; tlodi bwyd; prydau ysgol am ddim; cyflogaeth; cyflogau isel; a'r angen am fwy o gefnogaeth emosiynol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi. O ystyried nifer y sylwadau, nid oes modd cynnwys pob un ohonynt yn yr adroddiad hwn. Isod ceir rhai yn unig o enghreifftiau o'r newidiadau y byddai plant a phobl ifanc yn hoffi eu gweld.

"Byddwn i'n creu mwy o fanciau bwyd a mwy o dai cymunedol a mwy o grwpiau cefnogi i helpu gyda thlodi"
(O dan 10)

"Meddwl sut i helpu pobl mewn angen heb wneud iddyn nhw deimlo'n dlawd. Mae bod ag angen help yn teimlo'n gywilyddus, hyd yn oed os nad yw pobl yn bwriadu hynny"
(14-16 oed)

"Prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf"

"Cynyddu cyfraddau cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, gwell trafnidiaeth i'r rhai mewn ardaloedd gwledig fel eu bod nhw hefyd yn gallu mwynhau amrywiaeth o wahanol weithgareddau yn y gymuned"
(14-16 oed)

"Mae hwn yn gwestiwn mawr iawn. Gwneud yn siŵr bod gan blant a phobl ifanc leoedd diogel i fynd iddyn nhw, gwneud pethau'n fwy cyfartal, cynnal dosbarthiadau arian yn yr ysgol"
(14-16 oed)

Taswn i'n Brif Weinidog Cymru...

"Darparu deunydd ysgrifennu i'w roi i bobl sydd angen hynny i fwy o ysgolion, cinio am ddim mewn ysgolion a cholegau, a dysgu plant am dlodi fel bod nhw'n gallu helpu"

(14-16 oed)

"Codi'r isafswm cyflog, yn arbennig ar gyfer prentisiaethau. Dylai pob plentyn o bob oed fod yn cael prydau ysgol am ddim a chefnogaeth gan y llywodraeth i gael bwyd yn ystod y gwyliau; e.e. talebau bwyd neu ddosbarthu parseli. Dosbarthiadau ar sut mae coginio neu arbed arian wrth greu prydau iach"

(14-16 oed)

"Stopio cynghorau rhag codi cymaint am rent a gostwng y tâl cymunedol, sy'n annheg"

(14-16 oed)

"Prydau a thripiau ysgol am ddim i bawb"

(O dan 10)

"Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'm ffrindiau'n cael prydau ysgol am ddim, ond dwyf fi a'm dwy chwaer ddim, sydd ddim yn deg, a dwy ddim yn deall pam. Dylai pawb gael eu talu'n deg yn y lle cyntaf. Dwy ddim yn gwybod sut gallwch chi wneud hynny. Rydw i'n 16 ac rwyf fi bob amser wedi bod yn dlawd, mor hir ag y galla i gofio. Mae'r dyn gafodd ei ethol yn ymddangos yn foi ffein, ond wn i ddim fydd e'n gwneud unrhyw beth am y sefyllfa"

(14-16 oed)

"Rhoi blaenoriaeth i fusnesau mewn ardaloedd sydd â lefel uwch o dlodi trwy gyfyngiadau llym. Defnyddio trethi corfforaethau mwy cyfoethog a rhai o'r ardal ar ôl iddyn nhw dyfu, i roi budd-daliadau lles cyffredinol, wedi'u haddasu i'r rhanbarth fel bod llai o fiwrocratiaeth"

(14-16 oed)

"Byddwn i'n darparu tai ac ystadau mwy newydd i bobl sy'n byw mewn tlodi. Byddai'r trydan yn dod o baneli haul fel bod dim rhaid iddyn nhw dalu biliau trydan, fyddai'n torri lawr ar eu costau. Gallen nhw hefyd gael eu talu fel rhan o'r cynllun SEG, sydd eisoes ar waith heddiw. Byddai'r hen gartrefi yn cael eu troi'n siopau neu hyd yn oed yn barciau bach ychwanegol a gwarchodfeydd natur i wneud iawn am y difrod i'r amgylchedd. Byddai'r llywodraeth yn talu am therapi mewn ymgais i helpu pobl sy'n dioddef o iselder a gorbryder. Ar ben hynny, os ydych chi ar isafswm cyflog, bydd y llywodraeth yn rhoi 15% o'ch incwm misol i chi i helpu i dalu am dripiau ysgol a theithiau diwrnod fydd yn rhoi hwb i iechyd meddwl plentyn. Er y byddai hyn yn cael effaith fawr ar yr economi, y gobaith fyddai, wrth i fwy fyth o bobl wneud yn dda mewn bywyd, eu bod yn gallu cyfrannu mwy at yr economi yn y dyfodol"

(14-16 oed)

Fel sylw terfynol, hoffai Plant yng Nghymru ddiolch o galon i'r holl blant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Diolch am roi o'ch amser i rannu eich barn gyda ni. Fe wnaethoch chi rannu eich profiadau a'ch safbwyntiau, a rhoi llawer o sylwadau manwl i ni. Mae'r rhain yn wirioneddol bwysig i ni.

Rydych chi wedi bod yn anhygoel

DIOLCH YN FAWR

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

21 Windsor Place, Cardiff CF10 3BY
02920 342 434
@ChildreninWales
info@childreninwales.org.uk

childreninwales.org.uk